



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## ADRODDIAD / TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**DIBEN:** PENDERFYNIAD y Comisiynydd

**Amseru:** Brys – cyn dechrau blwyddyn ariannol 2024/25

**Teitl:** Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25

**Categori'r Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cyllid

### **Crynodeb Gweithredol:**

Mae'r ddogfen hon yn nodi Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Comisiynydd gan gynnwys Dangosyddion Darbodus, Gofyniad Cyllido a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2024/25 yn dilyn craffu yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio ar 14 Mawrth 2024.

### **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

**Llofnod:**

**Dyddiad:** 14 Mawrth 2024

**DIBEN:** CRAFFU AR Y CYD-BWYLLGOR ARCHWILIO

**Amseru:** Cyn dechrau Blwyddyn Ariannol 2024/25

**Teitl:** Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25

**Crynodeb Gweithredol:** Mae Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref yn nodi bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (y Comisiynydd) yn uniongyrchol gyfrifol am fenthyciadau, buddsoddiadau ac am gael benthyg arian. Dylai Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd benderfynu pa fuddsoddiadau sydd i'w gwneud yn lleol a chymeradwyo unrhyw fenthycia. Mae penderfyniadau ar Ariannu a Benthyca Cyfalaf hefyd yn rhan o gyfrifoldeb y Comisiynydd.

Trwy reoliadau ariannol y cytunwyd arnynt yn lleol a Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, staff Cyfarwyddwr Cyllid yr Heddlu sy'n rheoli Benthyciadau a Buddsoddiadau bob dydd yn unol â'r polisiâu cymeradwy.

Dylid trefnu pob benthyciad a buddsoddiad yn unol ag arferion gorau a ymgorfforir yng Nghod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar Reoli'r Trysorlys a dylai pob benthyca a wneir gydymffurfio â Chod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol.

Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli'r Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol pennu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn flynyddol. Mae Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys hefyd yn cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol sy'n ofynnol yng Nghanllaw Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddodd CIPFA God Rheoli'r Trysorlys CIPFA a Chod Darbodus diwygiedig ym mis Rhagfyr 2021, ac mae'r gofynion newydd wedi'u hadlewyrchu yn unol â hynny.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r polisiâu a'r gweithdrefnau sydd gan y Comisiynydd ar gyfer bodloni'r gofynion statudol hyn ar gyfer y flwyddyn 2024/25.

**Argymhelliad:**

I'w ystyried a derbyn sylwadau gan y Cyd-bwyllgor Archwilio.

## **Adroddiad Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Pholisi Buddsoddi**

### **1. Diben yr Adroddiad**

Mae Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus; Cod Ymarfer 2021 Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (cod CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gymeradwyo strategaeth rheoli'r trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

Rheoli'r trysorlys yw rheoli llif arian, benthyca a buddsoddiadau'r Comisiynydd, a'r risgiau cysylltiedig. Ar hyn o bryd mae gan y Comisiynydd arian a ddelir mewn arian parod sy'n deillio o gronfeydd wrth gefn ac ar gyfer darparu gwasanaethau gweithredol eraill. Mae'r symiau hyn yn cael eu buddsoddi fel eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel, yn hygyrch er mwyn darparu hylifedd i fodloni rhwymedigaethau a chyn belled ag y mae paramedrau'r strategaeth hon a'r codau ymarfer yn caniatáu, i ennill enillion neu log.

Felly, mae'r Comisiynydd yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli arian a fuddsoddiwyd ac effaith referniw cyfraddau llog newidiol. Bydd nodi, monitro a rheoli risg ariannol yn llwyddiannus felly'n ganolog i reolaeth ariannol ddarbodus.

Caniateir i'r Comisiynydd hefyd fenthyca arian yn amodol i gyflawni nodau strategol penodol. Mae benthyca yn dod â gofyniad i ad-dalu'r ddyled a'r rhwymedigaeth i dalu llog i'r benthyciwr. Ceir risgiau canlyniadol, effeithiau referniw ac mae gofyn i reolwyr dalu sylw.

Mae risg y trysorlys yn cael ei reoli o fewn fframwaith Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer Argraffiad 2021 Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (Cod CIPFA) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gymeradwyo strategaeth rheoli'r trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) Ganllawiau diwygiedig ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol ym mis Tachwedd 2019 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol y Comisiynydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i ystyried Cod CIPFA a Chanllawiau LIC ill dau.

Yn unol â Chanllawiau LIC, gofynnir i'r Comisiynydd gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys diwygiedig pe bai'r tybiaethau y mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arnynt yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau llog, rhaglen gyfalaf neu yn lefel y balans buddsoddi, neu golled sylweddol yng ngwerth teg buddsoddiad anariannol a nodwyd fel rhan o baratoi'r cyfrifon diwedd blwyddyn a'r broses archwilio.

Mae'n ofynnol i Brif Swyddog Cyllid y Comisiynydd weithredu a monitro polisïau a gweithdrefnau rheoli'r trysorlys yn unol â chod CIPFA a chanllawiau proffesiynol eraill.

## 2. Cefndir Economaidd

### 2.0 Ffynonellau Gwybodaeth

Ar ran y Comisiynydd, mae Adran Cyllid Corfforaethol Heddlu Dyfed-Powys yn derbyn cyngor a gwybodaeth reolaidd am y rhagolygon economaidd gan ei ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys, Link Group, Link Treasury Services Limited (dolen). Mae hyn yn cynnwys eu barn ar y rhagolygon ar gyfer cyfraddau llog ar gyfer benthyca a buddsoddiadau. Mae'r adrannau canlynol 2.1 i 2.4 wedi'u darparu gan ein hymgyngorwyr rheoli'r trysorlys.

### 2.1 Yr Amodau Economaidd Presennol

- Yn ystod trydydd chwarter 2023/24 gwelwyd:
  - Gostyngiad o 0.3% m/m (mis ar ôl mis) mewn cynnyrch domestig gros gwirioneddol ym mis Hydref, yn rhannol o bosibl oherwydd tywydd anarferol o wlyb, ond hefyd oherwydd dylanwad parhaus cyfraddau llog uwch. Cafodd twf ar gyfer yr ail chwarter, yn diweddu ar 30 Medi, ei ddiwygio i lawr i -0.1% a thwf blynyddol ei ddiwygio i lawr hefyd, i 0.3%
  - Cwmp sydyn mewn twf cyflogau, gyda chyfartaledd tri mis o'r gyfradd flynyddol yn gostwng o 8.0% ym mis Medi i 7.2% ym mis Hydref (ac yna 6.6% ym mis Tachwedd), er bod cyfradd "arbrofol" diweithdra'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi parhau'n isel ar 4.2%
  - Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn parhau ar ei lwybr ar i lawr, o 8.7% ym mis Ebrill i 4.6% ym mis Hydref, yna eto i 3.9% ym mis Tachwedd cyn codi ychydig i 4% ym mis Rhagfyr
  - Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr craidd yn gostwng o'r gyfradd uchaf am 31 mlynedd o 7.1% ym mis Ebrill a Mai i 5.1% ym mis Tachwedd a Rhagfyr, y gyfradd isaf ers mis Ionawr 2022
  - Banc Lloegr yn cadw Cyfradd y Banc ar 5.25% ym mis Tachwedd a Rhagfyr (ac wedi hynny ym mis Chwefror 2024)
  - Cwmp cyson mewn arenillion giltiau 10 mlynedd wrth i fuddsoddwyr ddiwygio eu disgwyliadau o ran cyfraddau llog yn is, er bod yr arenillion wedi codi rhywfaint ers hynny ym mis Ionawr.
- Efallai bydd adolygu data cynnyrch domestig gros yn Ch2 i ostyngiad o 0.1% ch/ch (chwarter ar ôl chwarter) yn golygu bod dirwasgiad bychan bach wedi dechrau. Yn wir, gostyngodd cynnyrch domestig gros gwirioneddol ym mis Hydref 0.3% m/m sy'n awgrymu bod yr economi wedi gwanhau ymhellach yn Ch3. Mae'n bosibl bod y gwendid ym mis Hydref yn rhannol oherwydd y tywydd anarferol o wlyb. Wedi dweud hynny, gan fod sail eang i'r gwendid mae'n bosibl hefyd bod dylanwad parhaus cyfraddau llog uwch yn fwy na gwrthbwysu unrhyw hwb o'r cynnydd mewn cyflogau real.
- Mae'r gostyngiad o 0.3% m/m mewn gwerthiannau manwerthu ym mis Hydref yn golygu, ar ôl crebachu 1.0% ch/ch (a ddiwygiwyd i lawr o -0.8% ch/ch) yn Ch2, bod gweithgarwch manwerthu wedi parhau'n wan ar ddechrau Ch3. Mae hynny'n awgrymu bod cyfraddau llog uwch yn cael mwy o effaith ar wariant gwirioneddol defnyddwyr.
- Mae cyfraddau llog uwch wedi treiddio drwy'r sianeli ariannol ac wedi gwanhau'r farchnad dai ond, yn gyffredinol, mae'n parhau'n rhyfeddol o wydn gyda mynegai prisiau tai Halifax

yn fwyaf diweddar (Mawrth 2024) yn pwyntio at gynnydd o 1.7% flwyddyn ar ôl blwyddyn tra bod data mis Chwefror Nationwide yn cyfeirio at gynnydd o 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn. Fodd bynnag, dylid cofio nad yw'r gwendid llawn yng ngwariant defnyddwyr gwirioneddol a buddsoddiad busnes gwirioneddol wedi'i deimlo eto oherwydd amcangyfrifir ar hyn o bryd bod tua dwy ran o dair i hanner effaith cyfraddau llog uwch ar daliadau llog aelwydydd eto i ymdreiddio.

- Ar y cyfan, rydym yn disgwyl i dwf cynnyrch domestig gros gwirioneddol barhau'n dawel drwy gydol 2024 wrth i ddylanwad cyfraddau llog uwch barhau ond bydd yr argyfwng costau byw yn pylu a thoriadau cyfraddau llog yn ail hanner 2024 yn cefnogi adfer twf cynnyrch domestig gros yn 2025.
- Mae'r farchnad lafur yn dal yn dynn yn ôl safonau hanesyddol, ond bydd y gostyngiad sydyn mewn twf cyflogau a welwyd ym mis Hydref yn atgyfnerthu'r gred gynyddol mewn marchnadoedd y bydd cyfraddau llog yn cael eu torri ganol 2024. Lleihaodd twf cyflogau ym mis Hydref yn gynt o lawer na'r hyn a ddisgwyliwyd. Bu gostyngiad o 1.6% m/m yng nghyfanswm yr enillion, sy'n golygu bod cyfartaledd tri mis o'r gyfradd flynyddol wedi lleihau o 8.0% ym mis Medi i 7.2% ym mis Hydref. Bydd Banc Lloegr yn croesawu'r newyddion hwn. Yn wir, gostyngodd cyfradd flynyddol tri mis mwy amserol o dwf enillion cyfartalog o 2.4% i -1.2%. Ac eithrio taliadau bonws, gostyngodd o 5.3% i 2.0%. At hynny, gostyngodd un o faromedrau allweddol y Banc o chwyddiant parhaus, sef twf cyflogau rheolaidd yn y sector preifat, o 7.9% cyfartaledd tri mis o'r gyfradd flynyddol i 7.3% (ac yna i 6.6% ym mis Tachwedd), sy'n ei adael yn gyfforddus islaw'r cymharydd o 7.2% ar gyfer mis Rhagfyr, fel y rhagwelwyd gan y Banc ym mis Tachwedd.
- Digwyddodd y cwmp mewn twf cyflogau er bod y galw am lafur yn gryfach ym mis Hydref na'r disgwyl. Fe wnaeth y newid tri mis mewn cyflogaeth leddf ymryn yn unig o 52,000 ym mis Medi i 50,000 ym mis Hydref. Ond gwrthbwysswyd y galw gwydn am lafur gan gynnydd pellach o 63,000 yn y cyflenwad o weithwyr yn y tri mis hyd at fis Hydref. Roedd hynny'n golygu bod y cyflenwad llafur yn uwch na'i lefel cyn-bandemig am y tro cyntaf, ac arhosodd y gyfradd ddiweithdra ar 4.2% ym mis Hydref. Yn y tri mis hyd at fis Tachwedd, gostyngodd nifer y swyddi gwag am yr 17<sup>eg</sup> mis yn olynol, o tua 959,000 ym mis Hydref i tua 949,000. Mae hynny wedi lleihau'r gymhareb swyddi gweigion i ddiweithdra wrth i'r galw am lafur leihau o'i gymharu â'r cyflenwad, a allai gefnogi llacio ymhellach yn nhwf cyflogau yn y misoedd nesaf.
- Gostyngodd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr o 6.7% ym mis Medi i 4.6% ym mis Hydref, ac yna eto i 3.9% ym mis Tachwedd (4.0% ym mis Rhagfyr). Roedd y ddau gwmp hyn yn fwy na'r disgwyl ac mae arwyddion clir fod pwysau chwyddiant domestig yn lleddf. Roedd y gostyngiad mewn chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr craidd o 5.7% i 5.1% ym mis Tachwedd yn fwy na'r disgwyl (rhagweliad consensws 5.6%). Dyna'r gyfradd isaf ers Ionawr 2022. Roedd rhywfaint o'r gostyngiad mewn chwyddiant craidd o ganlyniad i ddylanwad byd-eang chwyddiant nwyddau craidd, a arafodd o 4.3% i 3.3%. Ond roedd rhywfaint ohono o ganlyniad i chwyddiant gwasanaethau yn disgyn o 6.6% i 6.3%. Mae'r Banc yn gweld yr olaf fel baromedr allweddol o barhad chwyddiant ac roedd dipyn yn is na rhagolwg y Banc o 6.9% yn ei Adroddiad Polisi Ariannol ym mis Tachwedd. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyder i'r Banc fod chwyddiant gwasanaethau bellach ar lwybr ar i lawr.
- Ni roddodd Banc Lloegr unrhyw syndod yn ei gyfarfod pwyllgor polisi ariannol ym mis Rhagfyr (a mis Chwefror wedi hynny), gan adael cyfraddau llog ar 5.25% am y trydydd tro yn olynol a gwrthod y posibilrwydd o doriadau cyfradd llog tymor agos. Parhaodd y Banc i

swnio'n llym, gyda'r pwyllgor polisi ariannol yn cynnal ei duedd i dynhau polisi gan ddweud "byddai angen tynhau polisi ariannol ymhellach pe bai tystiolaeth o bwysau chwyddiant mwy parhaus". Ac fe lynodd wrth y sgrïpt gyfarwydd, gan ddweud y bydd polisi yn "ddigon gyfyngol am gyfnod digon hir" a bod "polisi ariannol yn debygol o fod angen cyfyngu am gyfnod estynedig o amser". Mewn geiriau eraill, y neges yw nad yw'r pwyllgor polisi ariannol eto'n fodlon cymeradwyo disgwyliadau buddsoddwyr y bydd cyfraddau'n cael eu torri mor fuan â mis Mehefin 2024.

- Wrth edrych i'r dyfodol, mae ein cydweithwyr yn Capital Economics yn rhagweld y bydd y tueddiadau ar i lawr diweddar mewn Mynegai Prisiau Defnyddwyr a chwyddiant craidd yn arafu dros yr ychydig fisoedd nesaf cyn dechrau dirywio'n fwy pendant eto ym mis Chwefror. Mae hynny'n esbonio pam ein bod ni'n meddwl na fydd Banc Lloegr yn teimlo'n gyfforddus i dorri cyfraddau llog tan ail hanner 2024.
- Y gostyngiad yn nisgwyliadau cyfradd llog marchnad y DU ym mis Rhagfyr a yrrodd y rhan fwyaf o'r gostyngiad mewn arenillion giltiau 10 mlynedd, a ddisgynnodd yn unol ag arenillion 10 mlynedd Trysorlys yr Unol Daleithiau a pharth yr ewro. Gostyngodd arenillion giltiau 10 mlynedd o 4.68% ym mis Hydref 2023 i tua 3.70% yn gynnar ym mis Ionawr ond maent wedi codi i ychydig dros 4% ers hynny. Mae gostyngiadau pellach ond yn debygol o barhau unwaith y bydd chwyddiant yn gostwng a data cyflogau yn cael eu cynnal yn gyson.
- Mae disgwyliadau cynyddol buddsoddwyr y bydd Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau yn torri cyfraddau llog yn hanner cyntaf 2024 wedi arwain at welliant mewn farn ar risg, sydd wedi rhoi hwb i'r bunt ac asedau peryglus eraill. Yn ogystal, mae'r cynnydd yn y bunt, o \$1.21 ym mis Tachwedd i \$1.27 yn awr, hefyd wedi'i gefnogi gan ostyngiad cymharol diweddar ym mhrisiau cyfanwerthu nwy y DU.
- Mae mynegai FTSE 100 yn parhau i fod 5% yn is na'i uchaf erioed ym mis Chwefror 2023. Lle mae ecwitiâu wedi ennill tir, caiff ei lywio'n bennaf gan berfformiadau cryf yn y sectorau diwydiannol a thechnoleg sy'n sensitif i gyfraddau. Ond mae ecwitiâu'r DU wedi parhau i danberfformio ecwitiâu UDA a pharth yr ewro. Cododd FTSE 100 2.2% ym mis Rhagfyr, tra bod y S&P 500 wedi codi 3.8%. Mae hyn yn rhannol oherwydd prisiau ynni is, sydd wedi dylanwadu'n gymharol fwy ar FTSE 100, oherwydd crynodiad uchel y mynegai o gwmnïau ynni.

## 2.2 Cyfarfodydd Pwyllgor Polisi Ariannol

- Ar 2 Tachwedd, pleidleisiodd Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) Banc Lloegr i gadw Cyfradd y Banc ar 5.25%, ac ar 14 Rhagfyr ailadroddodd y farn honno. Roedd y ddau gynnydd yn adlewyrchu pleidlais hollt, yr olaf o 6 pleidlais i 3, gyda'r grŵp lleiafrifol yn pleidleisio dros gynnydd o 0.25%. Ar 1 Chwefror, fodd bynnag, er bod y bleidlais yn dal i fod yn 6 pleidlais i 3 o blaid cadw cyfraddau yr un fath, pleidleisiodd 2 aelod o blaid codiad yn y gyfradd ac 1 dros doriad.
- Serch hynny, gyda chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr y DU bellach yn 4%, a chwyddiant craidd yn dechrau cymedroli (5.1%), mae marchnadoedd yn lleisio barn y dylai toriadau mewn cyfraddau ddechrau yn Ch1 2024/25, gryn dipyn ar y blaen i'r arwyddion gan aelodau'r pwyllgor polisi ariannol. Wrth gwrs, y data fydd y penderfyniadau yn y pen draw, felly bydd cyhoeddiadau sydd ar y gweill am niferoedd cyflogaeth, cyflogau a chwyddiant yn

arbennig o bwysig, a gellir disgwyl anwadalrwydd parhaus yn nisgwyliaidau Cyfradd y Banc a'r gromlin arenillion giltiau.

- Yn ogystal, mae'r hyn sy'n digwydd y tu allan i'r DU hefyd yn hanfodol i symudiad mewn arenillion giltiau. Mae Pwyllgor Marchnad Agored Ffederal (FOMC) yr UD wedi cadw cyfraddau tymor byr yn yr ystod o 5.25% i 5.50%, tra bod Banc Canolog Ewrop wedi symud ei gyfradd Adneuo i uchafbwynt tebygol o 4%. Ar hyn o bryd mae marchnadoedd yn disgwyl i'r ddau fanc canolog ddechrau torri cyfraddau yn 2024.


### 2.3 Rhagolwg Cyfraddau Llog

Mae'r tabl isod yn dangos yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael gan ymgynghorwyr rheoli trysorlys y Comisiynydd:

Link Group Interest Rate View	05.02.24												
	Mar-24	Jun-24	Sep-24	Dec-24	Mar-25	Jun-25	Sep-25	Dec-25	Mar-26	Jun-26	Sep-26	Dec-26	Mar-27
<b>BANK RATE</b>	5.25	5.25	4.75	4.25	3.75	3.25	3.00	3.00	3.00	3.00	3.00	3.00	3.00
3 month ave earnings	5.30	5.30	4.80	4.30	3.80	3.30	3.00	3.00	3.00	3.00	3.00	3.00	3.00
6 month ave earnings	5.20	5.10	4.60	4.10	3.70	3.30	3.10	3.10	3.10	3.10	3.10	3.10	3.10
12 month ave earnings	5.00	4.90	4.40	3.90	3.60	3.20	3.10	3.10	3.10	3.10	3.10	3.20	3.20
5 yr PWLB	4.50	4.40	4.30	4.20	4.10	4.00	3.80	3.70	3.60	3.60	3.50	3.50	3.50
10 yr PWLB	4.70	4.50	4.40	4.30	4.20	4.10	4.00	3.90	3.80	3.70	3.70	3.70	3.70
25 yr PWLB	5.20	5.10	4.90	4.80	4.60	4.40	4.30	4.20	4.20	4.10	4.10	4.10	4.10
50 yr PWLB	5.00	4.90	4.70	4.60	4.40	4.20	4.10	4.00	4.00	3.90	3.90	3.90	3.90

### 2.2 Cyfraddau Benthycu'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus

Yn y siart a ganlyn, mae'r cynnydd mewn arenillion giltiau ar draws y gromlin yn hanner cyntaf 2023/24, ac o fewn hynny cyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, gyda rali diwedd blwyddyn yn seiliedig ar gymysgedd o ffactorau domestig a rhyngwladol cefnogol:





**CYFRADDAU UCHEL/ISEL/CYFARTALEDD Y BWRDD BENTHYCIADAU GWAITH  
CYHOEDDUS AR GYFER 3.4.23 – 29.12.23**

	1 Year	5 Year	10 Year	25 Year	50 Year
<b>Low</b>	4.65%	4.13%	4.20%	4.58%	4.27%
<b>Date</b>	06/04/2023	27/12/2023	06/04/2023	06/04/2023	05/04/2023
<b>High</b>	6.36%	5.93%	5.53%	5.96%	5.74%
<b>Date</b>	06/07/2023	07/07/2023	23/10/2023	23/10/2023	23/10/2023
<b>Average</b>	5.60%	5.09%	5.03%	5.35%	5.08%
<b>Spread</b>	1.71%	1.80%	1.33%	1.38%	1.47%

## 2.5 Cyd-destun Lleol

Ar 29 Chwefror 2024, roedd y Comisiynydd yn dal £10.84 miliwn o fenthyca ac £8 miliwn o fuddsoddiadau. Nodir hyn yn fanylach yn **Atodiad A**.

Dangosir effaith y Rhaglen Gyfalaf ar sefyllfa'r fantolen a newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yn y tablau ar y dudalen nesaf.

Tabl 1: Gwariant Cyfalaf ac Ariannu ym mhob blwyddyn

Capital Expenditure and Financing	2022/23 Actual £m	2023/24 Estimate £m	2024/25 Estimate £m	2025/26 Estimate £m	2026/27 Estimate £m
Land & Buildings	14.646	5.597	15.985	17.933	3.985
Vehicles / Boat	1.439	1.848	2.132	1.680	1.875
ICT and Other Schemes	4.074	3.893	3.209	2.803	4.052
<b>Total Expenditure</b>	<b>20.159</b>	<b>11.338</b>	<b>21.326</b>	<b>22.416</b>	<b>9.912</b>
<b>Borrowing Requirement</b>	<b>14.336</b>	<b>2.892</b>	<b>15.985</b>	<b>17.933</b>	<b>3.985</b>
Capital Grants	0.258	0.106	0.000	0.000	0.000
Contribution from Revenue	4.339	4.230	2.718	3.243	4.093
Capital Receipts	0.252	0.821	1.084	0.294	0.050
Earmarked Reserves	0.974	3.289	1.539	0.946	1.784
<b>Total Financing</b>	<b>20.159</b>	<b>11.338</b>	<b>21.326</b>	<b>22.416</b>	<b>9.912</b>

Tabl 2: Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cronnus (Mantolen)

Capital Expenditure and Financing	2022/23 Actual £m	2023/24 Estimate £m	2024/25 Estimate £m	2025/26 Estimate £m	2026/27 Estimate £m
Land & Buildings	14.646	20.243	36.228	54.161	58.146
Vehicles / Boat	1.439	3.287	5.419	7.099	8.974
ICT and Other Schemes	4.074	7.967	11.176	13.979	18.031
<b>Total Expenditure</b>	<b>20.159</b>	<b>31.497</b>	<b>52.823</b>	<b>75.239</b>	<b>85.151</b>
<b>Borrowing Requirement</b>	<b>14.336</b>	<b>17.228</b>	<b>33.213</b>	<b>51.146</b>	<b>55.131</b>
Capital Grants	0.258	0.364	0.364	0.364	0.364
Contribution from Revenue	4.339	8.569	11.287	14.530	18.623
Capital Receipts	0.252	1.073	2.157	2.451	2.501
Earmarked Reserves	0.974	4.263	5.802	6.748	8.532
<b>Total Financing</b>	<b>20.159</b>	<b>31.497</b>	<b>52.823</b>	<b>75.239</b>	<b>85.151</b>

Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf, a chronfeydd defnyddiadwy a chyfalaf gweithio yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth bresennol y Comisiynydd yw defnyddio ei adnoddau ei hun yn lle benthyca allanol lle bo modd. Gelwir hyn yn aml yn fenthyca mewnol.

Mae gan y Comisiynydd Ofyniad Ariannu Cyfalaf cynyddol oherwydd y gwariant arfaethedig a ddisgrifir yn y Rhaglen Gyfalaf. Bydd gofyn i'r Comisiynydd fenthycia hyd at £55.131 miliwn dros y cyfnod a ragwelir.

Mae Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol yn argymhell y dylai dyled y Comisiynydd fod yn is na'i Ofyniad Ariannu Cyfalaf uchaf a ragwelir dros y tair blynedd nesaf.

Mae premiymau ad-dalu ar ddyledion y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn afresymol ac felly mae'n fwy cost effeithiol parhau i dalu benthyciadau presennol yn hytrach na'u talu'n gynnar. Yn ogystal, mae'r Comisiynydd yn derbyn cyfraniad grant tuag at gostau ariannu dyled cyn 1990 ar 51% o gostau'r taliadau llog tybiannol sy'n weddill ac ad-daliad refeniw lleiaf. Erys y strategaeth bresennol i gario'r benthyciadau hyn i aeddfedrydd.

### 3. Strategaeth Fenthycia

Ar hyn o bryd mae gan y Comisiynydd £10.84 miliwn o fenthyciadau allanol, cynnydd o £9.86 miliwn ar y flwyddyn flaenorol, fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf blynyddoedd blaenorol. Nodir hyn yn fanylach yn **Atodiad A**.

Mae'r Comisiynydd ar hyn o bryd yn cynnal sefyllfa o dan-fenthycia. Mae hyn yn golygu nad yw'r angen am fenthycia cyfalaf, (y Gofyniad Ariannu Cyfalaf), wedi'i ariannu'n llawn gyda dyled benthyciad, gan fod arian sy'n cefnogi cronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian y Comisiynydd wedi'i ddefnyddio fel mesur dros dro.

O ystyried y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus ac i gyllid llywodraeth leol, mae strategaeth fenthycia'r Comisiynydd yn parhau i fynd i'r afael â mater allweddol fforddiadwyedd heb gyfaddawdu ar sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyledion. Yn unol â chynghor gan ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys, o ystyried bod cyfraddau llog tymor byr yn uchel ar hyn o bryd, ond y rhagwelir y byddant yn gostwng yn y dyfodol agos, argymhellir defnyddio adnoddau mewnol pan fyddant ar gael, neu fenthycia gan ddefnyddio benthyciadau tymor byr. Dim ond os oes angen sicrwydd llwyr ar gyfraddau hirdymor ac y bernir ei fod yn fforddiadwy, yn gynaliadwy ac yn ddarbodus ar y cyfraddau cyfredol y dylid ceisio dyled hwy.

Ym mis Chwefror 2024, roedd angen mynd i'r afael â phrinder llif arian dros dro, a gwnaed penderfyniad i allanoli rhywfaint o'n benthycia mewnol. Archwiliwyd opsiynau benthycia amrywiol, ac yn dilyn trafodaethau â Link, trefnwyd benthyciad cyfradd adeg aeddfedu sefydlog o £10 miliwn gyda'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Cytunwyd ar y benthyciad am gyfnod o flwyddyn, ar gyfradd o 5.47%.

#### 3.1 Ffynonellau

Y ffynonellau cymeradwy ar gyfer benthycia tymor hir a thymor byr yw:

- Y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac unrhyw gorff olynol
- unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddiadau (gweler Adran 4)
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu arall a awdurdodwyd i weithredu yn y Deyrnas Unedig

- Cronfeydd pensiwn sector cyhoeddus a phreifat y DU (ac eithrio Cronfa Bensiwn Dyfed-Powys)
- buddsoddwyr mewn bondiau yn y farchnad gyfalaf
- cwmnïau diben arbennig a grëwyd i alluogi cyhoeddi bondiau awdurdodau lleol

Yn ogystal, gellir codi cyllid cyfalaf drwy'r dulliau canlynol nad ydynt yn fenthyca, ond gellir eu dosbarthu fel rhwymedigaethau dyled eraill:

- prydlesi gweithredu a chyllid
- hurbwrcas
- gwerthu ac adlesu

Mae'r Comisiynydd eisoes wedi cael benthycy ei holl fenthyciadau hirdymor oddi wrth y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ond mae'n parhau i ymchwilio i ffynonellau cyllid eraill, megis benthyciadau awdurdodau lleol, a allai fod ar gael ar gyfraddau mwy ffafriol.

### 3.2 Aildrefnu Dyled

Mae'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn caniatáu i'r Comisiynydd ad-dalu benthyciadau cyn aeddfedrwydd a naill ai talu premiwm neu dderbyn gostyngiad yn unol â fformiwla benodol yn seiliedig ar gyfraddau llog cyfredol. Efallai y bydd benthycwyr eraill hefyd yn barod i drafod telerau adbrynu cynamserol. Gall y Comisiynydd fanteisio ar hyn a chael benthyciadau newydd yn lle rhai benthyciadau, neu ad-dalu benthyciadau heb eu disodli, lle disgwylir i hyn arwain at arbediad cost cyffredinol neu leihau risg. Mae hyn yn annhebygol o ddigwydd yn y flwyddyn 2024/25 gan fod gwahaniaeth mawr rhwng cyfraddau adbrynu cynamserol a chyfraddau benthycy newydd. Fodd bynnag, os ymgymerir ag aildrefnu, adroddir arno i'r Cyd-bwyllgor Archwilio.

## 4. Strategaeth Fuddsoddi

Ar hyn o bryd mae'r Comisiynydd yn dal £8.0 miliwn o gronfeydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd cyn gwariant ynghyd ag arian parod sy'n codi o'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiad y Comisiynydd wedi amrywio rhwng £4 miliwn a £23 miliwn. Oherwydd y defnydd o arian wrth gefn i ariannu'r rhaglen gyfalaf, disgwylir i falansau buddsoddi leihau'n sylweddol yn ystod ail hanner 2024/25.

Nid yw benthyciadau i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus lleol a phrynu eiddo buddsoddi fel arfer yn cael eu hystyried yn fuddsoddiadau trysorlys.

**Amcanion:** Mae Cod CIPFA a Chanllawiau Llywodraeth Cymru ill dau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd fuddsoddi arian y trysorlys yn ddarbodus, a rhoi sylw i sicrwydd a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd uchaf o enillion neu arenillion. Amcan y Comisiynydd wrth fuddsoddi arian yw taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffyg dalu a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi anaddas o isel. Lle disgwylir i falansau gael eu buddsoddi am fwy na blwyddyn, bydd y Comisiynydd yn

ceisio sicrhau cyfanswm enillion sy'n gyfartal neu'n uwch na'r gyfradd chwyddiant ar y pryd, er mwyn cynnal gwerth y swm a fuddsoddir.

**Strategaeth:** Blaenoriaethau'r Comisiynydd yw Diogelwch, Hylifedd yna Arenillion. Gwneir buddsoddiadau yn gyntaf fel eu bod yn ddiogel sy'n golygu bod y risg o golled cyfalaf yn cael ei leihau. Nesaf bydd y Comisiynydd yn cadw hylifedd i fodloni gofynion y Rhaglen Gyfalaf ac yn cynnal digon o gyfalaf gweithio i dalu dyledion gweithredol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Yna, cyn belled ag y bo modd, mae'r Comisiynydd yn anelu at fuddsoddi yn y dosbarth ased sy'n cynhyrchu'r arenillion uchaf sydd ar gael. Mae hwn yn addasiad ar y strategaeth a fabwysiadwyd gyntaf yn 2019/20 lle ffafrwyd buddsoddiad yn yr asedau a oedd yn cynhyrchu'r arenillion mwyaf. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r gostyngiad yn y cronfeydd cyfalaf wrth gefn, y diffyg grantiau cyfalaf a derbyniadau cyfalaf sydd ar gael a'r angen i ddefnyddio benthyca mewnol.

#### **Egwyddorion Arweiniol Eraill yn unol â Chod Ymarfer CIPFA:**

- Rhaid i awdurdod beidio â benthyca i fuddsoddi at y prif ddiben o enillion masnachol
- Nid yw'n ddarbodus i awdurdodau lleol wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi neu wariant a fydd yn cynyddu'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf, ac felly gall arwain at fenthyca newydd, oni bai ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol ac yn bennaf â swyddogaethau'r awdurdod, a lle mae unrhyw enillion masnachol naill ai'n gysylltiedig â hyfywedd ariannol y prosiect dan sylw neu fel arall yn atodol i'r prif ddiben
- Dylai'r risgiau sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau gwasanaeth a buddsoddiadau masnachol fod yn gymesur â'u gallu ariannol – hy y gallai colledion credadwy gael eu hamsugno mewn cyllidebau neu gronfeydd wrth gefn heb niwed na ellir ei reoli i wasanaethau lleol.
- Dylid cynnal adolygiad blynyddol i werthuso p'un ai dylid gwerthu buddsoddiadau masnachol i ryddhau arian i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu ailgyllido dyled sy'n aeddfedu.

#### **4.1 Partïon i Gontract Cymeradwy**

Caiff y Comisiynydd fuddsoddi ei arian dros ben gydag unrhyw un o'r mathau o bartïon i gontract yn nhabl 3 isod, yn amodol ar y terfynau arian parod (fesul parti i gontract) a'r terfynau amser a ddangosir.

Ni fydd y buddsoddiadau gwarantiedig a diwarant cyfun mewn unrhyw un banc yn fwy na'r terfyn arian parod ar gyfer buddsoddiadau gwarantiedig.

Bydd terfynau partïon i gontract yn cael eu hadolygu bob chwarter ac yn cael eu diwygio, os oes angen, yn dibynnu ar falansau buddsoddi.

Tabl 3: Partïon i Gontract a Therfynau Buddsoddiadau Cymeradwy

Sector	Terfyn amser	Terfyn parti i gontract	Terfyn sector
--------	--------------	-------------------------	---------------

<b>Llywodraeth y DU</b>	50 o flynyddoedd	Diderfyn	Diderfyn
<b>Awdurdodau lleol ac endidau eraill y llywodraeth</b>	25 o flynyddoedd	£3 miliwn	Diderfyn
<b>Buddsoddiadau sicr *</b>	25 o flynyddoedd	£3 miliwn	Diderfyn
<b>Banciau (diwarant) *</b>	13 mis	£2 filiwn	Diderfyn
<b>Cymdeithasau adeiladu (diwarant) *</b>	13 mis	£2 filiwn	£4 miliwn
<b>Darparwyr cofrestredig (diwarant) *</b>	5 mlynedd	£2 filiwn	£5 miliwn
<b>Cronfeydd marchnad arian *</b>	Amherthnasol	£3 miliwn	Diderfyn
<b>Cronfeydd cyfun strategol</b>	Amherthnasol	£3 miliwn	£15 miliwn
<b>Buddsoddiadau eraill *</b>	5 mlynedd	£2 filiwn	£3 miliwn

Mae diffiniadau o'r derminoleg uchod wedi'u cynnwys yn **Atodiad B**.

\* Isafswm statws credyd

Bydd buddsoddiadau'r Trysorlys yn y sectorau sydd wedi'u marcio â seren yn cael eu gwneud dim ond gydag endidau nad yw eu statws credyd hirdymor isaf a gyhoeddwyd yn is nag A-. Lle bo ar gael, ystyrir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu ddsbarth penodol o fuddsoddiad, yn ogystal â statws credyd parti i gontract. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi byth yn cael eu gwneud ar sail statws credyd yn unig, a bydd yr holl ffactorau perthnasol eraill gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

Ar gyfer endidau heb statws credyd cyhoeddedig, gellir gwneud buddsoddiadau naill ai (a) lle mae cyngor allanol yn nodi bod yr endid o ansawdd credyd tebyg; neu (b) hyd at uchafswm o £2 filiwn fesul parti i gontract fel rhan o bwll arallgyfeirio ee drwy blatfform cyfrifiaduron cydradd.

#### 4.2 Asesiad Risg a Statws Credyd

Mae statws credyd yn cael ei sicrhau a'i fonitro gan ymgynghorwyr trysorlys y Comisiynydd, a fydd yn hysbysu newidiadau mewn statws wrth iddynt ddigwydd. Pan fo statws credyd endid wedi'i israddio fel ei fod yn methu â bodloni'r meini prawf buddsoddi cymeradwy, yna:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd,

- bydd unrhyw fuddsoddiadau sy'n bodoli eisoes y gellir eu hadalw neu eu gwerthu heb unrhyw gost yn cael eu hadalw neu eu gwerthu, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r parti i gontract yr effeithir arno.

Pan fydd asiantaeth statws credyd yn cyhoeddi bod statws credyd yn cael ei adolygu ar gyfer ei israddio o bosibl (a elwir hefyd yn “wyllo statws negyddol” neu “wyllo credyd negyddol”) felly efallai y gall ddisgyn yn is na'r meini prawf statws cymeradwy, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu'n ôl erbyn y diwrnod gwaith nesaf fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negyddol, sy'n dynodi cyfeiriad hirdymor yn hytrach na statws ar fin newid.

Mae'r Comisiynydd yn diffinio sefydliadau a gwarantau “ansawdd credyd uchel” fel y rhai sydd â statws credyd o A- neu uwch sydd â domisil yn y DU neu wlad dramor sydd â statws sofran o AA+ neu uwch. Ar gyfer cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfun eraill, diffinnir “ansawdd credyd uchel” fel rhai sydd â statws credyd o A- neu uwch.

Nid yw lefelau sylweddol o israddio i statws credyd tymor byr a thymor hir wedi digwydd ers yr argyfwng ym mis Mawrth 2020. Yn bennaf, lle'r oeddent yn newid, roedd unrhyw newidiadau wedi'u cyfyngu i ragolygon. Serch hynny, wrth osod isafswm statws dyled sofran, ni fydd y Comisiynydd yn gosod isafswm statws ar gyfer y DU.

### **4.3 Gwybodaeth Arall am Ddiogelwch Buddsoddiadau**

Mae'r Comisiynydd yn deall bod statws credyd yn ffordd dda, ond nid perffaith, o ragweld diffygddalu buddsoddiad. Rhoddir ystyriaeth lawn felly i wybodaeth arall sydd ar gael am ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys prisiau cyfnewid diffygddalu credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth am gymorth posibl gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol o safon. Ni wneir unrhyw fuddsoddiadau gyda sefydliad os oes amheuan sylweddol ynghylch ei ansawdd credyd, er y gallai fodloni'r meini prawf statws credyd.

Pan fydd dirywiad yn amodau'r farchnad ariannol yn effeithio ar deilyngdod credyd pob sefydliad, fel y digwyddodd yn 2008 a 2011, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu'n gyffredinol mewn statws credyd, ond gellir ei weld mewn mesurau marchnad eraill. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd y Comisiynydd yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny o ansawdd credyd uwch ac yn lleihau hyd ei fuddsoddiadau i gynnal y lefel ofynnol o sicrwydd. Bydd maint y cyfyngiadau hyn yn unol ag amodau'r farchnad ariannol ar y pryd. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian parod y Comisiynydd, yna bydd y gwarged yn cael ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, drwy'r Swyddfa Rheoli Dyled neu'n cael ei fuddsoddi ym miliau trysorlys y llywodraeth er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn achosi gostyngiad yn lefel yr incwm buddsoddi a enillir ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

#### 4.4 Buddsoddiadau Penodedig

Mae Canllawiau LIC yn diffinio buddsoddiadau penodedig fel:

- mewn punt sterling,
- i'w had-dalu o fewn 12 mis i'r trefniant oni bai bod y sefydliad atebol yn awdurdod lleol,
- heb eu diffinio fel gwariant cyfalaf gan ddeddfwriaeth, a
- wedi'u buddsoddi gydag un o'r canlynol:
  - Llywodraeth y DU,
  - awdurdod lleol yn y DU, cyngor plwyf neu gyngor cymuned, heddlu, neu wasanaeth tân,
  - corff neu gynllun buddsoddi o "ansawdd credyd uchel".

#### 4.5 Buddsoddiadau Amhenodedig

Mae unrhyw fuddsoddiad nad yw'n bodloni'r diffiniad o fuddsoddiad penodedig yn cael ei ddsbarthu fel un amhenodedig. O ystyried y diffiniad eang o fenthyciad, dim ond i unedau mewn cronfeydd cyfun a chyfranddaliadau mewn cwmnïau y mae'r categori hwn yn berthnasol. Dangosir terfynau ar fuddsoddiadau amhenodedig yn nhabl 4 isod. Mae'r Comisiynydd yn cadarnhau bod ei fuddsoddiadau amhenodedig presennol yn aros o fewn y terfynau hyn.

Tabl 4: Terfynau Buddsoddi Amhenodedig

	Symiau Cyfredol a Fuddsoddir £miliwn	Terfyn arian parod (Arfaethedig 2024/25) £miliwn
<b>Unedau mewn cronfeydd cyfun heb statws credyd neu gyfraddau islaw A-</b>	-	3.0
<b>Cyfranddaliadau mewn sefydliadau lleol</b>	-	4.0
<b>Uchafswm i'w fuddsoddi mewn buddsoddiadau amhenodedig</b>	-	7.0

#### 4.6 Terfynau Buddsoddi

Rhagwelir mai £4.862 miliwn fydd cronfa refeniw wrth gefn y Comisiynydd ar 31 Mawrth 2024 i dalu am golledion buddsoddi anrhagweladwy (y gronfa wrth gefn gyffredinol). Yr uchafswm



a roddir ar fenthg i unrhyw un sefydliad (ac eithrio Llywodraeth y DU) fydd £3 miliwn. Bydd grŵp o fanciau o dan yr un berchnogaeth yn cael eu trin fel un sefydliad at ddibenion terfynau. Bydd terfynau hefyd yn cael eu gosod ar reolwyr cronfeydd, buddsoddiadau mewn cyfrifon enwebai broceriaid, gwledydd tramor a sectorau diwydiant fel isod. Nid yw buddsoddiadau mewn banciau datblygu amlochrog yn cyfrif yn erbyn y terfyn ar gyfer unrhyw wlad dramor unigol gan fod y risg yn amrywio dros lawer o wledydd.

Tabl 5: Terfynau Buddsoddi

	Terfyn arian parod £miliwn
<b>Unrhyw sefydliad unigol, ac eithrio Llywodraeth Ganolog y DU (pob un)</b>	3.0
<b>Unrhyw grŵp o sefydliadau o dan yr un berchnogaeth (fesul grŵp)</b>	3.0
<b>Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfun o dan yr un reolaeth (fesul rheolwr)</b>	8.0
<b>Offerynnau y gellir eu trafod a ddelir yng nghyfrif enwebai brocer (fesul brocer)</b>	8.0
<b>Gwledydd tramor (fesul gwlad)</b>	3.0

#### 4.7 Rheoli Hylifedd

Ymgymerir â rhagolygon llif arian manwl i amcangyfrif y sefyllfa llif arian. Defnyddir hwn i bennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo arian yn ddarbodus. Mae'r rhagolwg hwn yn cael ei lunio ar sail ddarbodus, gyda derbyniadau wedi'u tanamcangyfrif a thaliadau'n cael eu goramcangyfrif er mwyn lleihau'r risg o orfod benthycu ar delerau anffafriol i fodloni ymrwymadau ariannol.

Gosodir terfynau ar fuddsoddiadau tymor hir trwy gyfeirio at Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Comisiynydd a rhagolwg llif arian.

Buddsoddir hefyd mewn biliau'r trysorlys a Thystysgrifau Adneuo sy'n hylifol ac y gellir eu gwerthu yn y farchnad eilaidd os oes angen arian parod ar fyr rybudd.

Bydd angen i bob buddsoddiad dros 13 mis gael ei gymeradwyo gan y Prif Swyddog Ariannol cyn ei wneud.

## 5. Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys

Mae'r Comisiynydd yn mesur ac yn rheoli ei amlygiadau i risgiau rheoli'r trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol.

## 5.1 Diogelwch

Mae'r Comisiynydd wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i liniaru ei amlygiad i risg credyd drwy fonitro'r statws credyd cyfartalog wedi'i bwysoli o ran gwerth/statws credyd ei bortffolio buddsoddi. Cyfrifir hyn drwy gymhwyso sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati.) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysoli yn ôl maint pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb statws yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

Targed	
<b>Statws /sgôr credyd cyfartalog portffolio</b>	A/6

## 5.2 Hylifedd

Mae'r Comisiynydd wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o liniaru ei amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro faint o arian parod sydd ar gael i dalu taliadau annisgwyl o fewn cyfnod treigl o dri mis, heb fenthycia ychwanegol.

Targed £miliwn	
<b>Cyfanswm arian parod a chronfeydd marchnad arian ar gael o fewn 3 mis</b>	5.0

### 5.3 Amlygiadau Cyfradd Llog

Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod i reoli pa mor agored yw'r Comisiynydd i risg cyfraddau llog. Y terfynau uchaf ar amlygiadau cyfradd llog sefydlog ac amrywiadwy, wedi'u mynegi fel cyfrif y prifswm net a fenthycwyd. (Mae buddsoddiadau yn cyfrif fel benthyca negyddol.)

	2024/25	2025/26	2026/27
<b>Terfyn uchaf ar amlygiad cyfradd llog sefydlog</b>	100%	100%	100%
<b>Terfyn uchaf ar amlygiad cyfradd llog amrywiol</b>	100%	100%	100%

Buddsoddiadau a benthyca cyfradd sefydlog yw'r rheini lle mae'r gyfradd llog yn sefydlog am o leiaf 12 mis, wedi'i mesur o ddechrau'r flwyddyn ariannol neu ddyddiad y trafodyn os yw'n hwyrach. Mae pob offeryn arall yn cael ei ddsbarthu fel cyfradd amrywiadwy.

### 5.4 Strwythur Aeddfedrwydd Benthyca

Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod i reoli pa mor agored yw'r Comisiynydd i risg ailariannu. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyca cyfradd sefydlog fydd:

	Uchaf	Isaf
<b>Llai na 12 mis</b>	100%	0%
<b>12 mis ac o fewn 24 mis</b>	100%	0%
<b>24 mis ac o fewn 5 mlynedd</b>	100%	0%
<b>5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd</b>	100%	0%
<b>10 mlynedd a mwy</b>	100%	0%

Mae cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedu ar gyfer benthyca yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

Mae'r terfynau wedi'u pennu mor eang â phosibl er mwyn sicrhau nad yw cyfleoedd i ailstrwythuro dyled yn cael eu colli.

### 5.5 Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau Hwyl na blwyddyn

Gwneir pob buddsoddiad sy'n hwyl na 365 diwrnod (amhenodedig) yn ofalus gan ystyried gofynion llif arian a gofynnir am gyngor gan ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys yn ôl yr angen. Pan fo'r sefydliad yn buddsoddi, neu'n bwriadu buddsoddi, am gyfnodau hwyl na blwyddyn, gosodir terfyn uchaf ar gyfer pob cyfnod blwyddyn ariannol ymlaen llaw ar gyfer aeddfedu buddsoddiadau o'r fath. Diben y dangosydd hwn yw rheoli pa mor debygol yw'r risg o golledion trwy geisio ad-daliad cynnar o fuddsoddiadau tymor hir. Bydd y terfynau ar y prif

swm hirdymor a fuddsoddir hyd at aeddfedrwydd terfynol y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ddangosir yn y tabl canlynol:

	2024/25	2025/26	2026/27
	£miliwn	£miliwn	£miliwn
<b>Terfyn ar y prif fuddsoddiad y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn</b>	8.0	6.0	4.0

Nid oes gan y Comisiynydd unrhyw fuddsoddiadau cyfredol o fwy na blwyddyn.

## 6. Eitemau Eraill

Mae nifer o eitemau ychwanegol y mae CIPFA neu Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd eu cynnwys yn ei Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

### 6.1 Polisi ar Ddefnyddio Deilliadau Ariannol

Yn absenoldeb unrhyw bŵer cyfreithiol i wneud hynny, ni fydd y Comisiynydd yn defnyddio deilliadau ariannol annibynnol (fel cyfnewidiadau, blaensymiau, blaendrafodion ac opsiynau). Gellir defnyddio deilliadau sydd wedi'u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau, gan gynnwys cronfeydd cyfun a thrafodion sy'n cychwyn ymlaen llaw, a bydd y risgiau a gyflwynir ganddynt yn cael eu rheoli yn unol â strategaeth gyffredinol rheoli risg y trysorlys.

### 6.2 Arferion Rheoli'r Trysorlys

Mae CIPFA yn argymhell bod sefydliadau'n datblygu nifer o arferion rheoli'r trysorlys sy'n berthnasol i'w arferion rheoli'r trysorlys a chwmpas eu gweithgareddau rheoli'r trysorlys. Gellir dod o hyd i'r rhain yn **Atodiad C**.

### 6.3 Hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys

Mae Cod Rheoli'r Trysorlys CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Ariannol sicrhau bod yr holl aelodau sy'n gyfrifol am gyfrifoldebau rheoli'r trysorlys, gan gynnwys craffu ar swyddogaeth rheoli'r trysorlys, yn cael hyfforddiant priodol sy'n berthnasol i'w hanghenion ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn. Mae'r Cod diwygiedig yn gofyn i wybodaeth a sgiliau swyddogion ac aelodau sy'n ymwneud â swyddogaeth rheoli'r trysorlys fod yn gymesur â maint a chymhlethdod rheolaeth y trysorlys a gynhelir gan bob awdurdod. Bydd cofrestr hyfforddiant hefyd yn cael ei chadw.

Ceir rhagor o wybodaeth yn **Atodiad C – Arferion Rheoli'r Trysorlys 10**.

## 6.4 Ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys

Mae'r Comisiynydd yn defnyddio Link Group, Link Treasury Services Limited fel ei ymgynghorwyr allanol ar reoli'r trysorlys. Mae'r contract presennol i fod i ddod i ben ddiwedd mis Mehefin 2024 a bydd y broses gaffael yn digwydd yn unol â hynny.

Ceir rhagor o wybodaeth yn **Atodiad C – Arferion Rheoli'r Trysorlys 11**.

## 6.5 Buddsoddi Arian a Fenthycwyd Cyn Bod ei Angen

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol beidio â benthycu mwy na'u hanghenion neu cyn bod eu hanghen dim ond er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycwyd. Gall y Comisiynydd, o bryd i'w gilydd, fenthycu cyn bod angen, lle disgwylir i hyn roi'r gwerth gorau am arian yn y tymor hir. Gan y bydd symiau a fenthycir yn cael eu buddsoddi nes eu bod wedi'u gwario, mae'r Comisiynydd yn ymwybodol y bydd yn agored i'r risg o golli'r symiau a fenthycwyd, a'r risg y gallai cyfraddau llog buddsoddi a benthycu newid yn y cyfamser. Bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli fel rhan o reolaeth gyffredinol y Comisiynydd o'i risgiau trysorlys.

Ni fydd y cyfanswm a fenthycir yn fwy na'r terfyn benthycu awdurdodedig o £61.0 miliwn. Disgwylir mai dwy flynedd fydd y cyfnod hwyaf rhwng benthycu a gwariant, er nad yw'n ofynnol i Heddlu Dyfed-Powys gysylltu benthyciadau penodol ag eitemau gwariant penodol.

## 6.6 Goblygiadau Ariannol a Mesur Perfformiad

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo i geisio gwerth am arian yn ei weithgareddau rheoli'r trysorlys ac i ddefnyddio methodoleg perfformiad i gefnogi'r nod hwnnw, o fewn y fframwaith a nodir yn ei ddatganiad polisi ar gyfer rheoli'r trysorlys.

Y gyllideb ar gyfer incwm buddsoddi yn 2024/25 yw £0.36 miliwn, yn seiliedig ar bortffolio buddsoddi cyfartalog o £10.3 miliwn ar gyfradd llog o 3.5%. Os yw lefelau gwirioneddol buddsoddiadau a chyfraddau llog gwirioneddol yn wahanol i'r rhai a ragwelwyd, bydd perfformiad yn cael ei fonitro fel rhan o adroddiadau rheolaeth ariannol.

Ceir rhagor o wybodaeth yn **Atodiad C – Arferion Rheoli'r Trysorlys 2**.

## 6.7 Opsiynau Eraill a Ystyriwyd

Nid yw Canllawiau Llywodraeth Cymru a Chod CIPFA yn rhagnodi unrhyw strategaeth rheoli trysorlys benodol i awdurdodau lleol ei mabwysiadu. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn credu bod y strategaeth uchod yn cynrychioli cydbwysedd priodol rhwng rheoli risg a chost effeithiolrwydd. Mae rhai strategaethau amgen, gyda'u goblygiadau ariannol a rheoli risg, wedi'u rhestru isod.

Strategaeth amgen	Effaith ar incwm a gwariant	Effaith ar reoli risg
<b>Buddsoddiad mewn ystod gulach o bartïon i gontract a/neu am gyfnodau byrrach</b>	Bydd incwm llog yn is	Tebygolrwydd is o golledion oherwydd diffygdlu sy'n gysylltiedig â chredyd, ond gall unrhyw golledion o'r fath fod yn uwch
<b>Buddsoddi mewn ystod ehangach o bartïon i gontract a/neu am gyfnodau hwy</b>	Bydd incwm llog yn uwch	Mwy o risg o golledion oherwydd diffygdlu sy'n gysylltiedig â chredyd, ond gall unrhyw golledion o'r fath fod yn llai
<b>Benthycia symiau ychwanegol ar gyfraddau llog sefydlog tymor hir</b>	Bydd costau llog dyled yn codi; mae hyn yn annhebygol o gael ei wrthbwyso gan incwm buddsoddi uwch	Balans buddsoddi uwch yn arwain at effaith uwch pe bai diffygdlu; fodd bynnag gall costau llog tymor hir fod yn fwy sicr
<b>Benthycia benthyciadau tymor byr neu amrywiadwy yn lle cyfraddau sefydlog tymor hir</b>	Bydd costau llog dyled yn is i ddechrau	Bydd cynnydd mewn costau llog dyled yn cael ei wrthbwyso'n fras gan gynnydd mewn incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond gall costau tymor hir fod yn llai sicr
<b>Lleihau lefel y benthycia</b>	Mae cynilo ar log dyled yn debygol o fod yn fwy na'r incwm buddsoddi a gollir	Llai o falans buddsoddi yn arwain at effaith is os bydd diffygdlu; fodd bynnag gall costau llog tymor hir fod yn llai sicr

## Atodiad A – Sefyllfa Bresennol y Portffolio Buddsoddi a Dyled

Manylir ar y sefyllfa dyled a buddsoddiad allanol ar gyfer 29 Chwefror 2024 isod:

	Prifswm ar 1 Ebrill 2023	Prifswm ar 29 Chwefror 2024
	£miliwn	£miliwn
<b><u>Benthyca Allanol – Y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus:</u></b>		
Benthyca Tymor Byr	0.30	0.16
Benthyca Tymor Hir	0.68	10.68
<b>Cyfanswm Benthyca Allanol</b>	<b>0.98</b>	<b>10.84</b>
<b><u>Buddsoddiadau'r Trysorlys:</u></b>		
<b><u>Adneuon</u></b>		
Swyddfa Rheoli Dyled	-	(2.0)
<b><u>Cronfeydd Marchnad Arian</u></b>		
<b>Ffederal</b>	(1.0)	(3.0)
<b>CCLA</b>	(3.0)	(3.0)
<b>Cyfanswm Buddsoddiadau'r Trysorlys</b>	<b>(4.0)</b>	<b>(8.0)</b>
<b>DYLED NET/(BUDDSODDIADAU)</b>	<b>(3.02)</b>	<b>2.84</b>

Gwnaed taliadau yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â phrifswm ar Fenthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus cyn 1990.

Ym mis Chwefror 2024, roedd angen mynd i'r afael â phrinder llif arian dros dro, a gwnaed penderfyniad i allanoli rhywfaint o'n benthyca mewnol. Archwiliwyd opsiynau benthyca amrywiol, ac yn dilyn trafodaethau â Link, trefnwyd benthyciad adeg aeddfedu sefydlog o £10 miliwn gyda'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Cytunwyd ar y benthyciad am gyfnod o flwyddyn, ar gyfradd o 5.47%.

## Atodiad B – Diffiniadau Buddsoddiadau

**Statws Credyd:** Pennir terfynau buddsoddi drwy gyfeirio at y statws credyd hirdymor isaf a gyhoeddwyd gan Fitch, Moody's, neu Standard & Poor's. Os yw ar gael, defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu ddsbarth penodol o fuddsoddiad, fel arall defnyddir y statws credyd parti i gontract. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi byth yn cael eu gwneud ar sail statws credyd yn unig, a bydd yr holl ffactorau berthnasol eraill gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

**Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (Diwarant):** Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau diwarant uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i'r risg o golli credyd drwy ryddhad pe bai'r rheolydd yn penderfynu bod y banc yn methu neu'n debygol o fethu.

**Buddsoddiadau Gwarantedig:** Buddsoddiadau wedi'u gwarantu ar asedau'r benthyciwr, sy'n cyfyngu ar y colledion posibl pe bai ansolfedd. Bydd maint ac ansawdd y diogelwch yn ffactor allweddol yn y penderfyniad buddsoddi. Mae bondiau sicrwydd a chytundebau adbrynu gwrthdro gyda banciau a chymdeithasau adeiladu wedi'u heithrio o ryddhad. Lle nad oes statws credyd sy'n benodol i fuddsoddiad, ond bod gan y sicrwydd cyfochrog y mae'r buddsoddiad wedi'i warantu arno statws credyd, yr uchaf o naill ai'r statws credyd sicrwydd cyfochrog neu'r statws credyd parti i gontract a ddefnyddir. Ni fydd y buddsoddiadau gwarantedig a diwarant cyfunol ag unrhyw un parti i gontract yn fwy na'r terfyn arian parod ar gyfer buddsoddiadau gwarantedig.

**Llywodraeth:** Benthyciadau i, a bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warantir gan lywodraethau cenedlaethol, awdurdodau rhanbarthol a lleol, a banciau datblygu amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn destun 'rhyddhad', ac yn gyffredinol mae risg is o ansolfedd, er nad ydynt yn risg sero. Ystyrir bod buddsoddiadau gyda Llywodraeth y DU yn risg credyd sero oherwydd ei gallu i greu arian cyfred ychwanegol ac felly gellir eu gwneud mewn symiau anghyfyngedig am hyd at 50 mlynedd.

**Buddsoddiadau Eraill:** Mae'r categori hwn yn cynnwys buddsoddiadau trysorlys nad ydynt wedi'u rhestru uchod, er enghraifft bondiau corfforaethol diwarant a benthyciadau cwmni. Ni all cwmnïau nad ydynt yn fanc fod yn destun rhyddhad ond gallant fynd yn fethdalwr gan roi buddsoddiad y Comisiynydd mewn perygl. Dim ond fel rhan o gronfa arallgyfeirio y bydd benthyciadau i gwmnïau heb statws yn cael eu rhoi er mwyn lledaenu'r risg yn eang.

**Darparwyr Cofrestredig (Diwarant):** Benthyciadau i, a bondiau a ddyroddir neu a warantir gan, ddarparwyr cofrestredig tai cymdeithasol neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a elwid gynt yn gymdeithasau tai. Mae'r cyrff hyn yn cael eu rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru. Fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn parhau i fod yn debygol o gael cymorth gan y llywodraeth os oes angen.

**Cytundebau Prynu Gwrthdro (Repo):** Mae cytundeb adbrynu yn drafodiad ariannol lle mae un endid (banc fel arfer) yn gwerthu buddsoddiadau (bondiau) i endid arall (y buddsoddwr) ar un dyddiad ac ar yr un pryd yn cytuno i'w hadbrynu am bris sefydlog ar ddyddiad diweddarach. Mae repo yn cynnwys dau drafodiad cysylltiedig ond ar wahân – gwerthu bondiau gan y banc yn gyfnewid am arian parod, ac adbrynu'r bondiau'n ddiweddarach yn gyfnewid am swm mwy o arian parod.



**Cronfeydd Marchnad Arian:** Cronfeydd cyfun sy'n cynnig hylifedd ar yr un diwrnod neu hylifedd byr rybudd ac anwadolrwydd pris isel iawn neu ddim pris trwy fuddsoddi mewn marchnadoedd arian tymor byr. Mae ganddynt y fantais dros gyfrifon banc o ddarparu amrywiaeth eang o risgiau buddsoddi, ynghyd â gwasanaethau rheolwr cronfa proffesiynol yn gyfnewid am ffi fechan. Er nad oes terfyn sector yn berthnasol i gronfeydd marchnad arian, bydd y Comisiynydd yn cymryd gofal i amrywio ei fuddsoddiadau hylifol dros amrywiaeth o ddarparwyr i sicrhau mynediad at arian parod bob amser.

**Cronfeydd cyfun strategol:** Cronfeydd bond, ecwiti ac eiddo sy'n cynnig enillion gwell dros y tymor hwy ond sy'n fwy cyfnewidiol yn y tymor byr. Mae'r rhain yn galluogi'r Comisiynydd i arallgyfeirio i ddsbarthiadau o asedau heblaw arian parod heb fod angen bod yn berchen ar y buddsoddiadau sylfaenol a'u rheoli. Gan nad oes dyddiad aeddfedu diffiniedig i'r cronfeydd hyn, ond eu bod ar gael i'w tynnu'n ôl ar ôl cyfnod o rybudd, bydd eu perfformiad a'u haddasrwydd parhaus i gyflawni amcanion buddsoddi'r Comisiynydd yn cael eu monitro'n rheolaidd.

## **Atodiad C – Arferion Rheoli Trysorlys**

### **Arferion Rheoli'r Trysorlys 1 Rheoli Risg**

Bydd Prif Swyddog Ariannol y Comisiynydd yn cynllunio, yn gweithredu ac yn monitro'r holl drefniadau ar gyfer nodi, rheolaeth a rheoli risg rheoli'r trysorlys, yn adrodd o leiaf unwaith y flwyddyn ar ddigonolrwydd/addasrwydd y risg honno, a bydd yn adrodd, fel mater o frys, ar amgylchiadau unrhyw anhawster gwirioneddol neu debygol o ran cyflawni amcanion y Comisiynydd yn hyn o beth, i gyd yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn Arferion Rheoli'r Trysorlys 6 *Gofynion adrodd a threfniadau gwybodaeth reoli*.

Mewn perthynas â phob un o'r risgiau canlynol, mae'r trefniadau sy'n ceisio sicrhau cydymffurfiaeth â'r amcanion hyn wedi'u nodi isod:

### **Risg Credyd a Pharti i Gontract**

#### **Diffiniad**

Y risg y bydd parti i gontract yn methu â bodloni ei rwymedigaethau cytundebol i'r sefydliad o dan fuddsoddiad, benthyca, cyfalaf, cyllid prosiect neu bartneriaeth, yn enwedig o ganlyniad i lai o deilyngdod credyd y parti i gontract, a'r effaith andwyol ddilynol ar gyfalaf neu adnoddau cyfredol (refeniw) y sefydliad.

#### **Cam gweithredu**

"Mae Dyfed-Powys yn ystyried mai un o amcanion allweddol ei weithgareddau rheoli'r trysorlys yw diogelwch y prif symiau y mae'n eu buddsoddi. Yn unol â hynny, bydd yn sicrhau bod ei restrau partïon i gontract a'i derfynau yn adlewyrchu agwedd ddarbodus tuag at sefydliadau lle y gellir adneuo arian, a bydd yn cyfyngu ei weithgareddau buddsoddi i'r offerynnau, y dulliau a'r technegau y cyfeirir atynt yn Arferion Rheoli'r Trysorlys 4 *Offerynnau, dulliau a thechnegau cymeradwy*. Mae hefyd yn cydnabod yr angen i gael, ac felly bydd yn cynnal, polisi parti i gontract ffurfiol mewn perthynas â'r sefydliadau hynny y gall fenthyca ganddynt, neu y gall ymrwymo i drefniadau ariannu eraill gyda nhw."

Manylir ar bartïon i gontract yn Strategaeth a Pholisi Rheoli'r Trysorlys.

### **Risg Hylifedd**

#### **Diffiniad**

Y risg na fydd arian parod ar gael pan fo angen, bod rheolaeth aneffeithiol o hylifedd yn creu costau ychwanegol heb eu cyllidebu ac y bydd amcanion busnes / gwasanaeth y sefydliad felly yn cael eu peryglu.

#### **Cam gweithredu**

Swyddogaeth Cyfarwyddwr Cyllid y Prif Gwnstabl, drwy staff rheoli'r trysorlys a gyflogir gan y Prif Gwnstabl, fydd sicrhau bod ganddo adnoddau arian parod digonol, er nad yn ormodol, trefniadau benthyca, gorddrafft, neu gyfleusterau wrth gefn, i'w alluogi i sicrhau bod y lefel o arian sydd ei angen arno i gyflawni ei amcanion busnes / gwasanaeth ar gael iddo bob amser.

Bydd yn sicrhau, bob amser, y bydd gwarged o arian parod a/neu Gronfeydd Marchnad Arian ar gael y gellir galw arnynt (£5 miliwn).

Mae prosesau rhagweld llif arian wythnosol, misol a blynyddol cadarn ar waith yn unol â Rheoliadau Ariannol a Gweithdrefnau Rheolaeth Ariannol.

## **Risg Cyfraddau Llog**

### **Diffiniad**

Y risg y bydd amrywiadau yn lefelau cyfraddau llog yn creu baich annisgwyl neu heb ei gyllidebu ar gyllid y sefydliad, y mae'r sefydliad wedi methu ag amddiffyn ei hun yn ddigonol yn ei erbyn.

### **Cam gweithredu**

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn rheoli'r perygl o ganlyniad i amrywiadau mewn cyfraddau llog gyda'r bwriad o gadw costau llog, neu sicrhau referniw llog, yn unol â'r symiau a ddarparwyd yn ei drefniadau cyllidebol fel y'u diwygiwyd yn unol ag Arferion Rheoli'r Trysorlys 6 *Gofynion adrodd a threfniadau gwybodaeth reoli*.

Bydd yn cyflawni hyn drwy wneud defnydd doeth o'i offerynnau, dulliau a thechnegau cyllido a buddsoddi cymeradwy, yn bennaf i greu sefydlogrwydd a sicrwydd o ran costau a referniw, ond ar yr un pryd yn cadw digon o hyblygrwydd i fanteisio ar newidiadau annisgwyl, manteisiol o bosibl, yn lefel neu strwythur cyfraddau llog. Dylai hyn fod yn amodol ar ystyried ac, os oes angen, cymeradwyo unrhyw oblygiadau polisi neu gyllidebol.

Bydd y Comisiynydd ond yn benthycu o ffynonellau cymeradwy fel y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, sefydliadau fel Banc Buddsoddi Ewrop a chan fanciau masnachol sydd ar restr y Comisiynydd o sefydliadau awdurdodedig, a thrwy hynny leihau risg gyfreithiol a rheoleiddiol. Bydd angen cymeradwyaeth y Prif Swyddog Cyllid cyn pob buddsoddiad hwy na 13 mis.

## **Risg Cyfradd Gyfnewid**

### **Diffiniad**

Y risg y bydd amrywiadau mewn cyfraddau cyfnewid tramor yn creu baich annisgwyl neu heb ei gyllidebu ar gyllid y sefydliad, y mae'r sefydliad wedi methu ag amddiffyn ei hun yn ddigonol yn ei erbyn.

### **Cam gweithredu**

Ar hyn o bryd, dim ond mewn cynnyrch sterling y mae Heddlu Dyfed-Powys yn buddsoddi, felly nid oes risg cyfradd gyfnewid.

## **Risg Ailariannu**

### **Diffiniad**

Y risg na ellir ailariannu benthycu sy'n aeddfedu, cyllid cyfalaf, prosiect, neu bartneriaeth ar delerau sy'n adlewyrchu'r darpariaethau a wneir gan y sefydliad ar gyfer y rhai sy'n

ailariannu, adnoddau cyfalaf a chyfredol (refeniw) a/neu fod y telerau'n anghyson ag amodau'r farchnad ar y pryd.

### **Cam gweithredu**

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn sicrhau y trafodir telerau trefniadau benthyca, ariannu preifat a phartneriaeth a'u strwythuro a'u dogfennu, a bod proffil aeddfedrwydd yr arian a gaiff ei fenthg yn cael ei reoli, gyda'r bwriad o gael telerau cynnig ar gyfer adnewyddu neu ailariannu os oes angen, sy'n gystadleuol ac mor ffafriol i'r Comisiynydd ag y gellir yn rhesymol ei gyflawni yng ngoleuni amodau'r farchnad sy'n bodoli ar y pryd.

Bydd yn mynd ati i reoli ei berthynas â'i bartïon i gontract yn y trafodion hyn mewn modd sy'n sicrhau'r amcan hwn a bydd yn osgoi gorddibyniaeth ar unrhyw un ffynhonnell ariannu os gallai hyn beryglu cyflawni'r uchod."

### **Risgiau Cyfreithiol a Rheoleiddiol**

#### **Diffiniad**

Y risg bod y sefydliad ei hun, neu sefydliad y mae'n delio ag ef yn ei weithgareddau rheoli'r trysorlys, yn methu â gweithredu yn unol â'i bwerau cyfreithiol neu ofynion rheoleiddiol, a bod y sefydliad yn dioddef colledion yn unol â hynny.

#### **Cam gweithredu**

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn sicrhau bod holl weithgareddau rheoli'r trysorlys yn cydymffurfio â'i bwerau statudol a'i ofynion rheoleiddiol, gan ddangos cydymffurfiaeth o'r fath, os oes angen, i'r holl bartïon y mae'n ymdrin â hwy mewn weithgareddau o'r fath. Wrth fframio ei bolisi credyd a pharti i gontract o dan Arferion Rheoli'r Trysorlys 1 *Rheoli risg credyd a pharti i gontract*, bydd yn sicrhau bod tystiolaeth o bwerau, awdurdod a chydymffurfiaeth partiïon i gontract mewn perthynas â'r trafodion a wnelo â'r Comisiynydd, yn enwedig o ran dyletswydd gofal a ffioedd a godir.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn cydnabod y gallai newidiadau deddfwriaethol neu reoleiddiol yn y dyfodol effeithio ar ei weithgareddau rheoli'r trysorlys a, chyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl, bydd yn ceisio lleihau'r risg y bydd y rhain yn effeithio'n andwyol ar y Comisiynydd.

### **Trefniadau Wrth Gefn ar gyfer Twyll, Gwallau a Llygredigaeth**

#### **Diffiniad**

Y risg y bydd sefydliad yn methu â nodi'r amgylchiadau lle gallai fod yn agored i'r risg o golled drwy dwyll, gwall, llygredigaeth neu ddigwyddiadau eraill yn ei waith rheoli'r trysorlys, ac yn methu â defnyddio systemau a gweithdrefnau addas a chynnal trefniadau rheoli wrth gefn effeithiol i'r perwyl hwn. Mae'n cynnwys y maes risg y cyfeirir ato'n gyffredin fel risg gweithredol.

#### **Cam gweithredu**

Bydd y Prif Swyddog Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid yn sicrhau bod yr amgylchiadau a allai ei agor i'r risg o golled drwy dwyll, gwall, llygredigaeth, neu ddigwyddiadau eraill yn ei drafodion

rheoli'r trysorlys yn cael eu nodi. Yn unol â hynny, bydd yn defnyddio systemau a gweithdrefnau addas, ac yn cynnal trefniadau rheoli wrth gefn effeithiol i'r perwyl hwn. Bydd Archwilio Mewnol yn adolygu swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys yn rheolaidd ac yn adrodd i'r Cyd-bwyllgor Archwilio.

Mae strwythur adrodd clir, wedi'i ddiffinio'n dda ar gyfer twyll ac ati yn ei le os bydd systemau'n torri. Mae'r polisi yswiriant yn cynnwys yswiriant ar gyfer twyll, gwallau a llygredigaeth. Mae hyn wedi'i ddogfennu yn y polisi Gwrth-dwyll a Llygredigaeth ac wedi'i gynnwys yng Ngweithdrefn Rheolaeth Ariannol 4.7 "Ymdrin â Thwyll a Dichell a Amheuir."

## **Risg y Farchnad**

### **Diffiniad**

Y risg, drwy amrywiadau andwyol yng ngwerth y prif symiau y mae sefydliad yn eu benthycu a'u buddsoddi, y bydd ei bolisïau a'i amcanion datganedig ar gyfer rheoli'r trysorlys yn cael eu peryglu, ac y mae effeithiau hynny wedi methu ag amddiffyn ei hun yn ddigonol yn eu herbyn.

### **Cam gweithredu**

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn ceisio sicrhau na fydd ei bolisïau a'i amcanion datganedig ar gyfer rheoli'r trysorlys yn cael eu peryglu gan amrywiadau andwyol yn y farchnad yng ngwerth y prif symiau y mae'n eu buddsoddi a bydd felly'n ceisio amddiffyn ei hun rhag effeithiau amrywiadau o'r fath.

Dim ond gyda sefydliadau sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr benthycu partion i gontract diweddaraf a gymeradwywyd gan y Ymgynghorwyr Trysorlys penodedig y bydd yn buddsoddi.

## **Ystyriaethau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu**

Mae'r pwnc hwn yn dod yn drafodaeth fwy cyffredin o fewn y gymuned fuddsoddi ehangach. Mae newidiadau i God Rheoli'r Trysorlys CIPFA 2021 yn golygu y bydd ystyriaethau amgylcheddol cymdeithasol a llywodraethu'n cael eu hymgorffori yn Arferion Rheoli'r Trysorlys 1 fel a ganlyn:

"Dylai polisïau credyd a pharti i gontract y sefydliad nodi ei bolisi a'i arferion yn ymwneud ag ystyriaethau buddsoddi amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG). Mae hwn yn faes sy'n datblygu, ac nid yw'n cael ei awgrymu y bydd polisi ESG y sefydliad ar hyn o bryd yn cynnwys sgorio ESG neu feini prawf ESG amser real eraill ar lefel buddsoddiad unigol."

Argymhellir felly i sefydliadau ystyried eu polisïau credyd a phartion i gontract yng ngoleuni gwybodaeth ESG a datblygu eu polisïau buddsoddi ESG ac arferion rheoli'r trysorlys eu hunain, yn gyson â pholisïau perthnasol eu sefydliad eu hunain, megis polisïau amgylcheddol a newid hinsawdd.

Mae'r diffyg cysondeb, yn ogystal â'r ansicrwydd ynghylch sut y gall Cod Rheoli'r Trysorlys ddatblygu Arferion Rheoli'r Trysorlys 1, yn golygu, er bod ein hymgynghorwyr rheoli'r trysorlys, Link, yn parhau i adolygu'r opsiynau ac y byddant yn diweddarau cleientiaid wrth i gynnydd gael ei wneud, nid yw'n ymarferol ymhelaethu'n helaeth ar faterion ESG ar hyn o bryd. Bydd y Comisiynydd yn ystyried y goblygiadau ac yn aros am eglurhad pellach gan Link a CIPFA.

## Arferion Rheoli'r Trysorlys 2 Mesur Perfformiad

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo i geisio gwerth am arian yn ei weithgareddau rheoli'r trysorlys ac i ddefnyddio methodoleg perfformiad i gefnogi'r nod hwnnw, o fewn y fframwaith a nodir yn ei ddatganiad polisi ar gyfer rheoli'r trysorlys.

Yn unol â hynny, bydd swyddogaeth rheoli'r trysorlys yn destun dadansoddiad parhaus o'r gwerth y mae'n ei ychwanegu i gefnogi amcanion busnes neu wasanaeth y sefydliad. Bydd yn destun archwiliad rheolaidd o ddulliau darparu gwasanaeth amgen, o argaeledd cymelliadau cyllidol neu grantiau eraill neu gymhorthdal, a'r sgôp ar gyfer gwelliannau posibl eraill. Bydd perfformiad swyddogaeth rheoli'r trysorlys yn cael ei fesur gan ddefnyddio'r meini prawf a nodir isod:

Bydd y mesurau perfformiad / meincnodau ar gyfer rheoli'r trysorlys yn cynnwys y canlynol:

Mesur Perfformiad	
1	Cyflawni'r incwm buddsoddi a gyllidebwyd.
2	Sicrhau bod balans arian parod yn ddigon am 31 diwrnod.
3	Sicrhau mai dim ond gyda sefydliadau sy'n cydymffurfio â Strategaeth Rheoli'r Trysorlys flynyddol y caiff buddsoddiadau eu gwneud.
4	Sicrhau y cedwir at derfynau parti i gontract cymeradwy.
5	Lefelau disgwylidig o fuddsoddiadau y mis o gymharu â lefel wirioneddol y buddsoddiad.
6	Cyfradd gyfartalog enillion buddsoddiadau y mis o gymharu â'r gyfradd darged.

## Arferion Rheoli'r Trysorlys 3 Gwneud Penderfyniadau a Dadansoddi

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cadw cofnodion llawn o'i benderfyniadau rheoli'r trysorlys ac o'r prosesau a'r arferion a ddefnyddiwyd wrth wneud y penderfyniadau hynny, at ddibenion dysgu o'r gorffennol, ac er mwyn dangos bod camau rhesymol wedi'u cymryd i sicrhau bod yr holl faterion sy'n berthnasol i'r penderfyniadau hynny wedi'u hystyried ar y pryd.

Ni wneir penderfyniadau ynghylch ariannu, benthyca, benthyg ac offerynnau a thechnegau newydd oni bai eu bod yn cydymffurfio â Pholisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Bydd pob penderfyniad yn agored i graffu annibynnol.

## Arferion Rheoli'r Trysorlys 4 Offerynnau, Dulliau a Thechnegau Cymeradwy

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cyflawni ei weithgareddau rheoli'r trysorlys trwy ddefnyddio'r offerynnau, y dulliau a'r technegau hynny a nodir yn y Rheoliadau Ariannol a'r Gweithdrefnau

Rheolaeth Ariannol yn unig ac o fewn y terfynau a'r paramedrau a ddiffinnir yn Arferion Rheoli'r Trysorlys 1 – Rheoli Risg.

Mae adran 7.8F y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi cyfarwyddyd ar drefniadau Rheoli'r Trysorlys a Bancio, a Gweithdrefn Rheolaeth Ariannol 2.1 *Rheoli'r Trysorlys a threfniadau Bancio* nodi offerynnau, dulliau a thechnegau a gymeradwyir.

### **Arferion Rheoli'r Trysorlys 5 Trefnu, Egluro a Gwahanu Cyfrifoldebau a Threfniadau Delio**

Mae'r Comisiynydd o'r farn ei bod yn hanfodol, at ddibenion rheoli a monitro ei weithgareddau rheoli'r trysorlys yn effeithiol, er mwyn lleihau'r risg o dwyll neu gamgymeriadau, ac er mwyn sicrhau'r perfformiad gorau, bod y gweithgareddau hyn yn cael eu strwythuro a'u rheoli'n llawn gan ddefnyddio dull integredig, a bod, bob amser, eglurder o ran cyfrifoldebau rheoli'r trysorlys.

Yr egwyddor y bydd hyn yn seiliedig arni yw gwahaniaeth clir rhwng y rhai sy'n gyfrifol am osod polisïau rheoli'r trysorlys a'r rhai sy'n gyfrifol am weithredu a rheoli'r polisïau hyn, yn enwedig o ran gweithredu a throsglwyddo arian, cofnodi a gweinyddu penderfyniadau rheoli'r trysorlys, ac archwilio ac adolygu swyddogaeth rheoli'r trysorlys.

Os a phryd bydd Heddlu Dyfed-Powys yn gwyro oddi wrth yr egwyddorion hyn, o ganlyniad i ddiffyg adnoddau, neu amgylchiadau eraill, bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn sicrhau bod y Prif Swyddog Cyllid yn cael ei hysbysu'n briodol am y rhesymau yn unol ag Arferion Rheoli'r Trysorlys 6 *Gofynion Adrodd a Threfniadau Gwybodaeth Reoli*, a bod y goblygiadau wedi'u hystyried a'u gwerthuso'n briodol.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn sicrhau bod datganiadau ysgrifenedig clir o'r cyfrifoldebau ar gyfer pob swydd sy'n ymwneud â rheoli'r trysorlys, a'r trefniadau ar gyfer cyflenwi yn ystod absenoldeb. Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid hefyd yn sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â rheolaeth y trysorlys yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau a nodir ac yn adrodd ar unrhyw wriad oddi wrth y rhain i'r Prif Swyddog Cyllid.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn sicrhau bod dogfennaeth gywir ar gyfer yr holl gytundebau a thrafodion a bod gweithdrefnau'n bodoli ar gyfer trosglwyddo arian yn effeithiol ac yn darparu tystiolaeth o hyn lle bo angen i'r Prif Swyddog Cyllid.

Mae gan y Prif Swyddog Cyllid flaenoriaeth dros swyddogaethau Rheoli'r Trysorlys a bydd yn sicrhau bod gwahaniad digonol o ran dyletswyddau yn bodoli rhwng staff sy'n gyfrifol am gyflawni Swyddogaethau Rheoli'r Trysorlys.

### **Arferion Rheoli'r Trysorlys 6 Gofynion Adrodd a Threfniadau Gwybodaeth Reoli**

Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i'r Awdurdod dderbyn a chymeradwyo, o leiaf, dri phrif adroddiad trysorlys bob blwyddyn, sy'n ymgorffori amrywiaeth o bolisïau, amcangyfrifon a symiau gwirioneddol.

- Dangosyddion darbodus a thrysorlys a strategaeth trysorlys (yr adroddiad hwn) – Mae'r adroddiad cyntaf, a phwysicaf, yn edrych i'r dyfodol ac yn cynnwys:
  - a) y cynlluniau cyfalaf, (gan gynnwys dangosyddion darbodus)

- b) polisi darpariaeth isafswm refeniw, (sut mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei godi ar refeniw dros amser)
  - c) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, (sut mae'r buddsoddiadau a'r benthycia i'w trefnu), gan gynnwys dangosyddion trysorlys, a
  - d) Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, (y paramedrau ar sut i reoli buddsoddiadau).
- Adroddiad rheoli'r trysorlys canol blwyddyn – adroddiad cynnydd yw hwn yn bennaf a bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am y sefyllfa gyfalaf, gan ddiwygio dangosyddion darbodus yn ôl yr angen, ac a oes angen adolygu unrhyw bolisiâu. Yn ogystal, bydd yr Awdurdod hwn yn derbyn adroddiadau diweddarau chwarterol
  - Adroddiad trysorlys blynyddol – Mae hon yn ddogfen adolygu sy'n edrych yn ôl ac yn rhoi manylion am ddetholiad o ddangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol a gweithrediadau trysorlys gwirioneddol o gymharu â'r amcangyfrifon yn y strategaeth.

Mae angen craffu'n ddigonol ar yr adroddiadau uchod cyn eu hargymell i'r Comisiynydd. Cyflawnir y rôl hon gan y Cyd-bwyllgor Archwilio.

Yn ogystal â'r tri phrif adroddiad a nodir uchod, o 2023/24, mae angen adroddiadau chwarterol (diwedd Mehefin/diwedd Rhagfyr) hefyd. Mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid sefydlu gweithdrefnau i fonitro ac adrodd ar berfformiad yn erbyn yr holl ddangosyddion darbodus sy'n edrych i'r dyfodol o leiaf bob chwarter. Disgwylir i'r Prif Swyddog Cyllid sefydlu proses fesur ac adrodd sy'n amlygu gwyriadau gwirioneddol neu ragweledig sylweddol oddi wrth y dangosyddion cymeradwy. Fodd bynnag, nid oes angen mynd â'r gwaith o fonitro dangosyddion darbodus, gan gynnwys rhagolygon dyled a buddsoddiadau, i'r Cyd-bwyllgor Archwilio a dylid adrodd arno fel rhan o waith monitro refeniw, cyfalaf a mantolen integredig yr awdurdod.

### **Arferion Rheoli'r Trysorlys 7 Trefniadau Cyllidebu, Cyfrifyddu ac Archwilio**

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn paratoi, a bydd y Comisiynydd yn cymeradwyo ac, os oes angen, yn diwygio o bryd i'w gilydd y gyllideb flynyddol ar gyfer swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys, ynghyd â'r incwm cysylltiedig. Bydd y materion i'w cynnwys yn y gyllideb o leiaf yn rhai sy'n ofynnol yn ôl statud neu reoliad, ynghyd â'r cyfryw wybodaeth a fydd yn dangos cydymffurfiaeth ag Arferion Rheoli'r Trysorlys 1 *Rheoli Risg*, Arferion Rheoli'r Trysorlys 2 *Mesur Perfformiad* ac Arferion Rheoli'r Trysorlys 4 *Offerynnau, Dulliau a Thechnegau Cymeradwy*. Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn arfer rheolaethau effeithiol dros y gyllideb hon a bydd yn adrodd ac yn argymhell unrhyw newidiadau sydd eu hangen yn unol ag Arferion Rheoli'r Trysorlys 6 *Gofynion Adrodd a Threfniadau Gwybodaeth Reoli*.

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn rhoi cyfrif am ei weithgareddau rheoli'r trysorlys, am y penderfyniadau a wneir a'r trafodion a gyflawnwyd, yn unol ag arferion a safonau cyfrifyddu priodol, a'r gofynion statudol a rheoliadol sydd mewn grym ar hyn o bryd ac, yn arbennig Cod Ymarfer a Chyfarwyddiadau Traws-sector CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gweithredu yn unol â datganiad polisi'r Comisiynydd ac Arferion Rheoli'r Trysorlys a *CIPFA: Safon Ymarfer Proffesiynol ar Reoli'r Trysorlys*.



Bydd y Comisiynydd yn sicrhau bod archwilyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am adolygu rheoleiddio, yn gallu gweld yr holl wybodaeth a phapurau sy'n cefnogi gweithgareddau swyddogaeth rheoli'r trysorlys fel sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni eu rolau'n briodol, a bod y cyfryw wybodaeth a phapurau yn dangos cydymffurfiaeth â swyddogaethau allanol a pholisïau mewnol ac arferion cymeradwy.

Bydd gweithdrefnau a phrosesau Rheoli'r Trysorlys yn cael eu harchwilio yn unol â'r strategaeth archwilio mewnol ar sail risg. Bydd archwilyr, fel rhan o'u cyfrifoldebau wrth archwilio'r Datganiad Cyfrifon, yn cael gwiriad annibynnol gan bartïon i gontract o fuddsoddiadau a ddelir gan y Comisiynydd.

### **Arferion Rheoli'r Trysorlys 8 Rheoli Arian Parod a Llif Arian**

Oni bai fod gofynion statudol neu reoleiddiol yn mynnu fel arall, bydd yr holl arian sydd yn nwylo Heddlu Dyfed-Powys o dan reolaeth y Comisiynydd ac yn cael ei cronni at ddibenion llif arian a rheoli buddsoddiadau. Bydd rhagamcanion llif arian yn cael eu paratoi'n rheolaidd, a bydd y Prif Swyddog Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid yn sicrhau bod y rhain yn ddigonol at ddibenion monitro cydymffurfiaeth ag Arferion Rheoli'r Trysorlys 1 *Rheoli Risg Hylifedd*.

### **Arferion Rheoli'r Trysorlys 9 Gwyngalchu Arian**

Mae'r Comisiynydd yn ymwybodol o'r posibilrwydd o ddod yn destun ymgais i'w gynnwys mewn trafodiad sy'n ymwneud â gwyngalchu arian. Yn unol â hynny, bydd gweithdrefnau ar gyfer gwirio a chofnodi pwy yw partïon i gontract a rhoi gwybod am amheuan yn cael eu cynnal a bydd y staff sy'n ymwneud â hyn wedi'u hyfforddi'n llawn.

Dim ond partïon i gontract a gymeradwyir gan ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys fydd yn cael eu defnyddio. Cytunir ar delerau ac amodau rhwng y parti i gontract a'r Comisiynydd cyn trosglwyddo arian.

Mae Deddf Enillion Troseddau 2020 (POCA) a Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2007 cysylltiedig hefyd wedi ymestyn cyfrifoldebau archwilyr Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a'i staff a chontractwyr adrodd i'r Asiantaeth Troseddau Difrifol a Threfniadol (SOCA) os ydynt yn amau, o ganlyniad i wybodaeth a gafwyd yn ystod eu gwaith, y gallai fod gweithredoedd troseddol sy'n cynnwys elw ariannol.

Pe bai gan unrhyw staff sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys amheuan o wyngalchu arian, yna dylid dwyn hyn i sylw'r Prif Swyddog Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid.

### **Arferion Rheoli'r Trysorlys 10 Hyfforddiant a Chymwysterau**

Mae Cod Rheoli'r Trysorlys CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Ariannol sicrhau bod yr holl aelodau sy'n gyfrifol am gyfrifoldebau rheoli'r trysorlys, gan gynnwys craffu ar swyddogaeth rheoli'r trysorlys, yn cael hyfforddiant priodol sy'n berthnasol i'w hanghenion ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn. Mae'r Cod diwygiedig yn gofyn i wybodaeth a sgiliau swyddogion ac aelodau sy'n ymwneud â swyddogaeth rheoli'r trysorlys fod yn gymesur â maint a chymhlethdod rheolaeth y trysorlys a gynhelir gan bob awdurdod. Bydd cofrestr hyfforddiant hefyd yn cael ei chadw.

Mae staff sy'n cyflawni dyletswyddau rheoli'r trysorlys yn mynychu digwyddiadau hyfforddi perthnasol a ddarperir gan ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys penodedig ac yn mynychu cyfarfod strategaeth chwarterol. Mae staff hefyd yn mynychu digwyddiadau hyfforddi perthnasol eraill a ddarperir gan gyrff cydnabyddedig.

Asesir anghenion staff ar gyfer hyfforddiant mewn buddsoddi a rheoli'r trysorlys fel rhan o'r broses gwerthuso staff, y Proffil Datblygu ac Asesu (DAP). Hefyd, os bydd cyfrifoldebau aelodau unigol o staff yn newid, bydd yr anghenion hyfforddi yn cael eu hailasesu. Derbynnir hyfforddiant gan ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys, Link, a chan gyrff eraill, ar ffurf cyrsiau hyfforddi a seminarau. Anogir datblygiad personol hefyd fel bod unigolion yn gwella eu gwybodaeth eu hunain trwy ddarllen canllawiau CIPFA, cyhoeddiadau ac ymchwil ar y rhyngwyd.

### **Arferion Rheoli'r Trysorlys 11 Defnyddio Darparwyr Gwasanaethau Allanol**

Mae'r Prif Swyddog Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid yn cydnabod mai'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am benderfyniadau rheoli'r trysorlys bob amser. Mae'r Comisiynydd yn cydnabod gwerth posibl cyflogi darparwyr allanol o wasanaethau rheoli'r trysorlys, er mwyn cael mynediad at sgiliau ac adnoddau arbenigol. Pan fydd yn cyflogi darparwyr gwasanaeth o'r fath, bydd yn sicrhau ei fod yn gwneud hynny am resymau a fydd wedi'u cyflwyno i gael gwerthusiad llawn o'r costau a'r buddion. Bydd hefyd yn sicrhau bod telerau eu penodiad a'r dulliau a ddefnyddir i asesu eu gwerth yn cael eu cytuno a'u dogfennu'n briodol, a'u hadolygu'n rheolaidd. A bydd yn sicrhau, lle bo hynny'n ymarferol ac yn angenrheidiol, y defnyddir ystod o ddarparwyr gwasanaethau, er mwyn osgoi gorddibyniaeth ar un neu nifer fach o gwmnïau. Lle mae gwasanaethau yn destun trefniadau tendro neu ail-dendro ffurfiol, bydd gofynion deddfwriaethol bob amser yn cael eu bodloni. Y Prif Swyddog Cyllid sy'n gyfrifol am fonitro trefniadau o'r fath.

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys gontract gydag ymgynghorwyr allanol rheoli'r trysorlys ar gyfer darparu cyngor/cymorth fel a ganlyn:

- Cyngor strategol
- Cyngor ar gyllid cyfalaf
- Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- Rhagolygon Cyfraddau Llog a Chyngor Economaidd
- Cyngor Polisi Buddsoddi
- Cyngor ar Ddyled
- Cymorth Parti i Gontract
- Seminarau a hyfforddiant
- Gwefan a chyfarfodydd cleientiaid.

### **Arferion Rheoli'r Trysorlys 12 Llywodraethu Corfforaethol**

Mae'r Comisiynydd wedi mabwysiadu a gweithredu argymhellion allweddol Cod Ymarfer CIPFA. Ystyrir bod hyn yn hanfodol i sicrhau llywodraethu corfforaethol priodol ym maes

rheoli'r trysorlys, a bydd y Prif Swyddog Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid yn monitro ac, os oes angen, yn adrodd ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

Mae'r Cod yn argymhell bod sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn datgan eu hymrwymiad i gofleidio egwyddorion llywodraethu corfforaethol yn eu gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys, yn enwedig bod yn agored ac yn dryloyw.

Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i fynd ar drywydd llywodraethu corfforaethol priodol ar draws ei fusnesau a'i wasanaethau, ac i sefydlu'r egwyddorion a'r arferion ar gyfer cyflawni hyn. Felly, ymgwymerir â swyddogaeth rheoli'r trysorlys a'i gweithgareddau gyda didwylledd a thryloywder, gonestrwydd, uniondeb ac atebolrwydd a adlewyrchir yn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd a'r Gweithdrefnau Rheolaeth Ariannol.

Bydd polisiâu ac arferion Rheoli Trysorlys y sefydliad yn cael eu cyhoeddi ar y rhyngwyd.

## Atodiad D Dangosyddion Darbodus a Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw, 2024/25

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd roi sylw i *God Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol* (y Cod Darbodus) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth wrth benderfynu faint o arian y gall fforddio ei fenthyg. Amcanion y Cod Darbodus yw sicrhau, o fewn fframwaith clir, bod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, yn ddarbodus, ac yn gynaliadwy, a bod penderfyniadau rheoli'r trysorlys yn cael eu gwneud yn unol ag arfer proffesiynol da. Er mwyn dangos bod y Comisiynydd wedi cyflawni'r amcanion hyn, mae'r Cod Darbodus yn nodi'r dangosyddion canlynol y mae'n rhaid eu gosod a'u monitro bob blwyddyn.

### Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf

Gellir crynhoi gwariant cyfalaf ac ariannu arfaethedig y Comisiynydd fel a ganlyn.

Capital Expenditure and Financing	2022/23 Actual £m	2023/24 Estimate £m	2024/25 Estimate £m	2025/26 Estimate £m	2026/27 Estimate £m
Land & Buildings	14.646	5.597	15.985	17.933	3.985
Vehicles / Boat	1.439	1.848	2.132	1.680	1.875
ICT and Other Schemes	4.074	3.893	3.209	2.803	4.052
<b>Total Expenditure</b>	<b>20.159</b>	<b>11.338</b>	<b>21.326</b>	<b>22.416</b>	<b>9.912</b>
<b>Borrowing Requirement</b>	<b>14.336</b>	<b>2.892</b>	<b>15.985</b>	<b>17.933</b>	<b>3.985</b>
Capital Grants	0.258	0.106	0.000	0.000	0.000
Contribution from Revenue	4.339	4.230	2.718	3.243	4.093
Capital Receipts	0.252	0.821	1.084	0.294	0.050
Earmarked Reserves	0.974	3.289	1.539	0.946	1.784
<b>Total Financing</b>	<b>20.159</b>	<b>11.338</b>	<b>21.326</b>	<b>22.416</b>	<b>9.912</b>

### Amcangyfrif o'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf

Mae'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf yn mesur angen sylfaenol y Comisiynydd i fenthyca at ddiben cyfalaf.

Gofyniad Ariannu Cyfalaf Cronol	31.03.23 Gwirione ddol £miliwn	31.03.24 Amcangyfrif £miliwn	31.03.25 Amcangyfrif £miliwn	31.03.26 Amcangyfrif £miliwn	31.03.27 Amcangyfrif £miliwn
<b>Cyfanswm</b>	14.3	17.2	33.2	51.1	55.1

Rhagwelir y bydd y Gofyniad Ariannu Cyfalaf yn cynyddu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf wrth i wariant cyfalaf a ariennir gan ddyled fod yn fwy na'r adnoddau a roddwyd o'r neilltu yn flaenorol ar gyfer ad-dalu dyledion.

## Dyled Gros a'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf

Er mwyn sicrhau mai at ddiben cyfalaf yn unig y bydd dyled dros y tymor canolig, dylai'r Comisiynydd sicrhau nad yw dyled, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y gofyniad ariannu cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon o unrhyw ofynion ariannu cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hwn yn ddangosydd allweddol o ddarbodaeth.

Dyled	31.03.23 Gwirion eddol £miliwn	31.03.24 Amcangyf rif £miliwn	31.03.25 Amcang yfrif £miliwn	31.03.26 Amcang yfrif £miliwn	31.03.27 Amcang yfrif £miliwn	31.03.28 Amcang yfrif £miliwn
<b>Amcangyfrif o Fenthycia Allanol</b>	1.0	3.9	19.9	37.8	41.8	44.4
<b>Gofyniad Ariannu Cyfalaf a Benthycia 2 Flynedd</b>	38.4	51.1	55.2	58.1	60.9	61.4

Mae'r tabl uchod yn dangos na fydd y Comisiynydd yn torri'r dangosydd darbodus hwn.

## Ffin Weithredol ar gyfer Dyled Allanol

Mae'r ffin weithredol yn seiliedig ar amcangyfrif y Comisiynydd o'r sefyllfa fwyaf tebygol h.y., sefyllfa ddarbodus, ond nid y sefyllfa waethaf ar gyfer dyled allanol. Mae'n cysylltu ag amcangyfrifon y Comisiynydd o wariant cyfalaf, y Gofyniad Ariannu Cyfalaf, a gofynion llif arian, ac mae'n arf rheoli allweddol ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn. Mae rhwymedigaethau hirdymor eraill yn cynnwys prydles gyllid, Menter Cyllid Preifat a rhwymedigaethau eraill nad ydynt yn fenthycia ond sy'n ffurfio rhan o ddyled y Comisiynydd.

Ffin Weithredol	31.03.24 Amcangyfrif £miliwn	31.03.25 Amcangyfrif £miliwn	31.03.26 Amcangyfrif £miliwn	31.03.26 Amcangyfrif £miliwn	31.03.27 Amcangyfrif £miliwn
<b>Benthycia</b>	25.0	35.0	55.0	70.0	80.0
<b>Rhwymedigaethau tymor hir eraill</b>	1.0	1.0	1.0	1.0	1.0
<b>Cyfanswm y Ddyled</b>	26.0	36.0	56.0	71.0	81.0

## Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol

Y terfyn awdurdodedig yw'r terfyn benthycia fforddiadwy a bennir yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003. Dyma uchafswm y ddyled y gall y Comisiynydd fod ynddi yn gyfreithiol. Mae'r

terfyn awdurdodedig yn darparu lwfans uwchben y ffin weithredol ar gyfer symudiadau arian parod anarferol.

Terfyn Awdurdodedig	Terfyn 2023/24 £miliwn	Terfyn 2024/25 £miliwn	Terfyn 2025/26 £miliwn	Terfyn 2026/27 £miliwn	Cyfyngiad 2027/28 £miliwn
<b>Benthyca</b>	60.0	65.0	75.0	80.0	85.0
<b>Rhwymedigaethau tymor hir eraill</b>	1.0	1.0	1.0	1.0	1.0
<b>Cyfanswm y Ddyled</b>	61.0	66.0	76.0	81.0	86.0

### Cymhareb Costau Ariannu i Llif Refeniw Net

Mae hwn yn ddangosydd o fforddiadwyedd ac mae'n amlygu goblygiadau refeniw gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig trwy nodi'r gyfran o'r gyllideb refeniw sydd ei hangen i dalu costau ariannu, incwm buddsoddi net. Mae'r dangosydd hwn yn dangos costau cyllido yng nghyd-destun y gyllideb gyfan.

Mae hyn i fod i gynyddu dros y cyfnod oherwydd y gofyniad i ymgymryd â benthyca i gefnogi'r buddsoddiad sydd ei angen, o ganlyniad i'r Rhaglen Gyfalaf. Mae effaith benthyca i ariannu'r rhaglen gyfalaf i'w gweld mewn blynyddoedd diweddarach.


	2023/24 Amcangyfrif £miliwn	2024/25 Amcangyfrif £miliwn	2025/26 Amcangyfrif £miliwn	2026/27 Amcangyfrif £miliwn	2027/28 Amcangyfrif £miliwn
<b>Costau Ariannu</b>	0.11	0.52	1.19	1.51	1.64
<b>Llif Refeniw Net</b>	133.7	142.1	147.4	153.1	159.6
<b>Cymhareb</b>	0.08%	0.37%	0.81%	0.99%	1.03%

## Meincnod Atebolrwydd

Roedd hwn yn ddangosydd darbodus newydd ar gyfer 2023/24. Mae CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Meincnod Atebolrwydd gael ei fesur ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol, o leiaf.

Mae pedair cydran i'r Meincnod Atebolrwydd:

1. Dyled benthyciad presennol sy'n ddyledus – benthyciadau presennol yr Awdurdod sy'n dal heb eu talu yn y dyfodol
2. Benthyciadau Gofyniad Ariannu Cyfalaf – mae hwn yn cael ei gyfrifo yn unol â diffiniad Gofyniad Ariannu Cyfalaf benthyciadau yn y Cod Darbodus a'i ragamcanu i'r dyfodol yn seiliedig ar fenthycia darbodus cymeradwy, a Darpariaeth Isafswm Refeniw arfaethedig
3. Gofyniad benthyciadau net – bydd hyn yn dangos dyled benthyciad crynswth yr Awdurdod namyn buddsoddiadau rheoli'r trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, wedi'i ragamcanu i'r dyfodol ac yn seiliedig ar ei fenthycia darbodus cymeradwy, Darpariaeth Isafswm Refeniw arfaethedig ac unrhyw ragolygon llif arian mawr eraill a
4. Meincnod atebolrwydd (neu ofyniad benthyciadau gros) – mae hyn yn cyfateb i'r gofyniad benthyciadau net ynghyd â lwfans hylifedd tymor byr.



Yn 2022/23 mae'r meincnod rhwymedigaeth yn dechrau ychydig yn is na'r portffolio aeddfedrwydd dyledion benthyciad presennol, sy'n nodi nad oedd angen benthycia ychwanegol ar y pryd, ac yn dynodi bod gan y Comisiynydd arian parod dros ben a oedd yn fwy na'r gofynion hylifedd, yr oedd angen ei fuddsoddi.

Fodd bynnag, o 2023/24, mae'r meincnod rhwymedigaeth yn nodi bod ar y Comisiynydd angen benthycia. Mae'r siart yn helpu i nodi'r benthyciadau sydd eu hangen i gyfateb â'r

rhwymedigaethau hynny yn y dyfodol o £50 miliwn erbyn 2029/30, yn unol â benthycia darbodus arfaethedig y Comisiynydd.

Mae modd gweld y benthycia newydd o £10 miliwn y cyfeirir ato yn **Atodiad A** ar y siart. Cymerwyd y benthyciad am gyfnod o flwyddyn a bydd yn cael ei ad-dalu ym mis Chwefror 2025.

## **Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw Blynyddol 2024/25**

Pan fo'r Comisiynydd yn ariannu gwariant cyfalaf drwy ddyled, rhaid iddo neilltuo adnoddau i ad-dalu'r ddyled honno mewn blynyddoedd diweddarach. Gelwir y swm a godir ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu dyled yn Ddarpariaeth Refeniw Lleiaf er na fu isafswm statudol ers 2008. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd roi sylw i Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddarpariaeth Isafswm Refeniw.

Nod eang canllawiau LIC yw sicrhau bod dyled yn cael ei had-dalu sydd naill ai'n rhesymol gymesur â'r hyn y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion drosto neu, yn achos benthycia a gefnogir gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, yn rhesymol gymesur â'r cyfnod sydd ymhlyg ym mhenderfynu ar y grant hwnnw.

Mae canllawiau LIC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gymeradwyo datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw blynyddol bob blwyddyn ac mae'n argymhell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o Ddarpariaeth Isafswm Refeniw.

Bydd y polisi'n dal i gael ei ddefnyddio i amcangyfrif taliadau Darpariaeth Isafswm Refeniw yn y dyfodol i'r cyfrif refeniw ar gyfer blynyddoedd i ddod a fydd yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r rhaglen gyfalaf.

### **DATGANIAD O'R DDARPARIAETH ISAFSWM REFENIW BLYNYDDOL**

Mae'r polisi canlynol wedi'i osod gan y Comisiynydd mewn perthynas â Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2024/25.

#### **Benthycia Darbodus — Dull Dibrisiant**

Mae Darpariaeth Isafswm Refeniw i fod yn gyfartal â'r ddarpariaeth sy'n ofynnol yn unol â chyfrifyddu dibrisiant mewn perthynas â'r ased y mae gwariant wedi'i ariannu arno gan fenthycia darbodus neu drefniadau credyd digymorth. Mae hyn yn adlewyrchu oes ddefnyddiol yr ased a amcangyfrifwyd fel 50 mlynedd mewn perthynas ag asedau Ystadau, 10 mlynedd mewn perthynas ag asedau seilwaith TG (e.e. Ystafell Reoli, system rheoli cofnodion RMS) a 5 mlynedd ar gyfer asedau TG eraill.

(a) Bydd Darpariaeth Isafswm Refeniw yn parhau i gael ei wneud yn flynyddol hyd nes bod swm cronnus darpariaeth o'r fath yn hafal i'r gwariant a ariannwyd yn wreiddiol.

(b) Wrth waredu'r ased, ni fydd swm y derbyniad cyfalaf yn cael ei gymryd i'r cyfrif refeniw a bydd y Comisiynydd yn cydymffurfio â gofynion arferol Deddf 2003 ar ddefnyddio derbyniadau cyfalaf.



(c) Lle mae canran y gwariant ar yr ased a gyllidir gan fenthycyca darbodus neu drefniadau credyd digymorth yn llai na 100%, bydd Darpariaeth Isafswm Refeniw yn hafal i'r un ganran o'r ddarpariaeth sy'n ofynnol o dan gyfrifo dibrisiant.